

E.P.C. Welsh Drama Series, No. 19

James Jones

Llwybrau Anrhydedd

DRAMA GYMRAEG

Gan

D. DERWENYDD MORGAN



CARDIFF:

THE EDUCATIONAL PUBLISHING CO., LTD.

CYMERIADAU.

- JOHN JONES - Amaethwr tlawd ac annysgedig ddaeth i gyfoeth lawer trwy ei gael ar ol ei frawd, o'r America
- JAC MORRIS - Hen ysgolfeistr ac ysgrifennydd preifat i John Jones
- ANN - - - - Morwyn John Jones
- WIL SAIS BACH - Gwas John Jones
- WALTER WYNNE - Bugail o'r Mynydd Du
- MORFUDD PUW - Cariad Walter Wynne
- DEIO'R SAER
- JOS Y CRYDD
- PEGI'R LLOFFT FACH
- MALEN Y GWEHYDD
- BETSI'R DDEWINES
- Barnwr, Cyfreithiwr, Tystion, Heddeidwad, Meddyg, Gweinidog, Diaconiaid, Pedair o ferched, etc.

LLWYBRAU ANRHYDEDD.

YR ACT GYNTAF.

[GOLYGFA: Cegin gyffredin ty fferm, ychydig o hen luniau, ac almanac neu ddau ar y muriau. Bord fach gron ar y llawr, a llestri bwyd arni.

JOHN JONES, yn ei ddiwad-bob-dydd, yn gyffredin ei olwg, yn disgwyl fel pe heb ymolch na dadrys ei wallt er ys tro, yn eistedd wrth y bwrdd, ac yn gorffen ei foreu-bryd.

ANN. Hon eto yn ei diwad-bob-dydd, yn gyffredin ei golwg, ac yn ymddangos fel pe yn brysur efo rhywbeth ar y bwrdd.]

JOHN JONES: Byt gaws, bachan, i ti gael dyfod yn gryf i weithio. 'Does dim gwell Ann ni yn Nyffryn Tywi i weithio caws, nas cyffra i. Y mae'n un dda.

WIL SAIS BACH (yn codi oddiwert y bwrdd yn ymestyn, ac yn rhoddi ochenaid, ac yn siarad ag ychydig lediaith): Thankyou, fi wedi cael dicon yn awr; fi wedi byta da iawn.

JOHN JONES: O'r gore. Cer nawr i roddi bwyd i'r anifeiliaid, da machan i.

(WIL yn gafaelyd yn ei gap ac yn mynd, ond yn edrych yn ol tan wenu ar y ddau, fel pe yn credu fod yna ryw garwriaeth rhyngddynt.)

LLWYBRAU ANRHYDEDD

ANN : Yn wir, mishtir bach, mae yr hen grwt yna wedi mynd yn rhyfedd iawn oddiar pan ych chwi a finne wedi dechre caru. Chawn ni ddim siarad gair â'n gilydd na fydd e yn treial watcho a gwrando o hyd, fel pe byddai ein caru ni yn rhyw fater pwysig iawn iddo ef.

JOHN JONES (*yn rhwbio ei ddwyllaw*) : Lycoch chi nawr. Pe byddai Wil Sais Bach mor brysur ac mor ofalus efo'i waith ac ydyw e efo'n caru ni, fe fyddai yn hogyn da ofnatsan. Ond i newid yr ymadrodd, ys dywed y pregethwr, y mae yn ddealedig bellach dy fod di a minnau i ymuno mewn glân briodas. Yr wyt wedi bod yn forwyn dda a gofalus, ac yr wyf yn gwbl gredu y gwnei di wraig dda hefyd.

ANN : Eithaf da, mishtir bach, ond dwyf fi ddim am i chi gredu mai dim ond gyda chwi yr wyf wedi cael cynnyg priodi hefyd.

JOHN JONES (*yn rhwbio ei ddwyllaw*) : Lycoch chi nawr. Rhai budr i chi y merched am ddangos eich independancy, ac yr ydych yn leicio cael eich coaxio yn ofnatsan.

ANN : Ie, ond yn siwr i chwi, ces i gynnyg pum mlynedd yn ol ar John, Tynyfron. Gwidwar yw John, mae yn wir, ac nid yw yn un o'r rhai glanaf, ond y mae yn berchen ar ei le bach ei hunan, ac y mae grân ar bethau yn Tynyfron. Y mae yn well i ferch i gael dyn â thipyn o arianganddo a thipyn o brofiad

LLWYBRAU ANRHYDEDD

mewn bywyd na chael rhyw hogyn pen-chwiban nad oes ganddo dim synnwyr yn ei ben, na gras yn ei galon, na cheiniog o arian yn ei logell.

JOHN JONES (*yn esgus cydio ym mraich ANN*) : Ie, lycoch chi nawr.

ANN : Ac own ni yn mynd i weyd ta chi yn gadael llony i fi, ces i gynnyg hefyd ar William, gwas Ty'r-ddol. Fe wariodd swlltau yn ffair G'langaea ar ffeirins i mi, ac mi dalodd am ride i mi ar y ceffylau bach hefyd, a mae bob nos Sul am fy hebrwng i adre o'r cwrdd.

JOHN JONES : Lycoch chi nawr, wyt ti yn cael hwyl ar siarad heddyw, Ann, ond yr wyt wedi bod yn forwyn dda a gofalus i mi am bymtheg mlynedd, ac y mae ychydig o'th gyflogau, fel y gwyddost, yn aros heb eu talu o hyd. Does gen i, wyt ti'n gweld, ddim ffashwn beth a thalent at garu fel sydd gan rai bechgyn, ond y mae yn hen bryd i ni ddod i'r penderfyniad bellach i fyw er gwell neu er gwaeth fel gwr a gwraig yn y Tyddyn Llwyd.

ANN : O'r gore, mishtir bach, yr wyf yn eithaf boddlon, ond rhaid i mi gael amser i baratoi fy "nhress" briodas. Yr wyf am gael un newydd spon. Fe briododd Mary, morwyn Plas-bach yn ei hen "ddress," a mawr fu y siarad yn y pentre am hynny, ac y maent yn edrych i lawr ar Mary byth oddiar hynny.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

JOHN JONES : Lycot ti nawr. Creaduriaid garw i chi y merched yma am eich gwisgoedd. Byth nas cyffra i, mae "dress" y briodas yn fwy pwysig yng ngolwg llawer merch na'r dyn y mae yn briodi; ond o'r goreu, cymer di dy amser fy ngeneth i, i gael dy "ddress," ac fe gadwn ni y mater yn "secret" hyd yr awr apwyntiedig.

ANN : Ia'n wir, charwn ni ddim i deulu clonc y pentre ddwad i wybod. Wa'th chi wyddoch, mishtir bach, fel y ma nhw yn siarad am bob peth. Y maent yn estyn at un stori, ac yn tynnu oddiwrth stori arall, ac nid yw y stori yn agos yr un fath wedi iddi fyned trwy ddwyllaw a thafodau teulu y glonc.

JOHN JONES : Lycot ti, nas cyffra i. Creaduriaid budr am siarad yw y menywod yma. Roedd Deio y Saer yn dweyd yn wastad mai y rheswm na fuasai *moustache* yn tyfu ar ên menyw fel y mae ar ên gwryw, nad ydyw gên menyw ddim yn llonydd yn ddigon hir i *moustache* i dyfu arni, ond cloncian neu beidio, y mae yn rhaid i ni eich cael chwi. Os ydi menyw dipyn yn anhawdd byw efo hi, y mae yn anhawddach byth byw hebdi.

(Gall JOHN JONES osod ei law ar ysgwydd ANN. Cnoc wrth y drws. Y ddau yn gwylltio. ANN yn myned i'r drws.)

POSTMAN (yn dyfod i mewn gyda phac o lythyrau ac yn rhoddi llythyr ag ymyl ddu i JOHN JONES):

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Bore da, John Jones. Bore da, Ann. Llythyr ag ymyl ddu. Gobeithio nad oes ynddo newydd drwg, ond dyna fel y mae yr hen Postman i chwi, cario hyd y byd newyddion da a drwg.

JOHN JONES : Lycoch chi. Llythyr oddiwrth, neu ynghylch Wil fy mrawd sydd yn yr America. Druan o Wil. (*Yn tynnu allan bws, ac yn chwilio am ddwy geiniog i'r POSTMAN.*) Lycoch chi, peidiwch a chredu fy mod i yn "bad sort," postman. (*Y postman yn bowio yn barchus ac yn myned.*) Lycot ti, Ann. Cer i mofyn Morris y sgwlyn i ddarllen y llythyr.

ANN (*ar ol esgus trwsio tipyn yn rhedeg yn ei chlocs*): Alright, mishtir bach, yn y funud nawr.

JOHN JONES (*yn agor y llythyr, ac yn siarad ag ef ei hun*): Beth tybed ydyw'r newydd? Llawer o bethau sydd yn fy mlino yn awr. Llawer i gosfa dialedd roddais i i Wil pan oeddem yn blant. A helynt garw y bu hi ynghylch ewylllys nhad. Y ffaith am dani, yr oedd Wil yn fachan mor fawr, ac am berchenogi y cwbl. Ond er mwyn dangos i'r gwalch pwy oedd drech, fe gafodd fyned o'r Tyddyn Llwyd heb ond ychydig yn ei logell. Ond beth dâl whalu yn awr. Garw mor hir y mae Morris cyn dod. Garw y fath anfantais ydyw peidio cael ysgol. Gallaf fi wneud yn lied dda i gowntio pris y menyw a'r wyau, a gallaf ddarllen ychydig adnodau o'r hen

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Lyfr yna, ond garw mor lleied y gallaf wneud o lythyr; ond dyma nhw yn dod. Beth tybed yw y newydd. Y mae fy nghalon yn curo fel ffustau machine dyrnu pan fo Darby a Bess wrthy "*power*."

MORRIS (*dyn tua hanner cant oed, bywiog ei ysbryd, ysgolheigaid ei olwg, ond yn ymddangos fel un wedi gweled amser gwell*): Dydd da, John Jones. Y mae Ann yn dweyd wrthyf eich bod newydd dderbyn llythyr o'r America a bod iddo ymyl ddu. Gobeithio nad oes ynddo "*bad news*."

JOHN JONES: Lycoch chi, dyma fe. A welsoch chi erioed fsiawn beth, fedra i ddim gwneud na phen na chynffon ohono fo.

MORRIS (*yn gosod eye-glasses ar ei lygaid, ac yn darllen*): "Pueblo Colorado, North America. Annwyl Syr. Y mae eich brawd William Jones wedi marw, ac wedi gadael ei holl eiddo i chwi. Daeth drosodd, fel y gwyddoch, i'r rhan o'r wlad yn yr "*eighties*," a phrynodd ddarn helaeth o dir yn ymyl y mynyddoedd Creigog. Trodd yr anturiaeth allan yn hynod lwyddiannus. Daeth o hyd i wythien o aur.

JOHN JONES: Lycoch chi nawr, *well done* Wil fy mrawd. Ie, un da oedd Wil erioed am gael gafael mewn rhywbeth. Rwy'n cofio colli dafad un tro, pan oeddym yn blant, ac yr oeddym yn suspecto fod yna leidr wedi bod yn y lle. Ond mi gafodd Wil ei 'drack' e, a ble 'rych chwi yn meddwl ca'dd Wil

LLWYBRAU ANRHYDEDD

afael yn y ddfad? a mi 'nabyddodd hi hefyd—ond yng nghrochan cawl Dai Shams Puw. Ie, ewch ymlaen, Morris. Gwythien o aur—

ANN (*yn dawnsio gan lawenydd, ac yn curo ei dwylaw*): Ie, gwythien o aur, a finne yn gweithio blwyddyn gyfan am ddeuddeg punt, ac y mae ychydig o fy nghyflogau yn aros heb eu talu o hyd.

JOHN JONES: Ewch ymlaen, Morris, gwythien o aur—

ANN (*yn chwerthin gan lawenydd*): Gwythien o aur.

MORRIS: "Heblaw y swm anferth o aur cafodd hefyd ffynhonnau o olew, a llawer iawn o nwy (*gas*) tra gwerthfawr; fel trwy y cyfan gwnaeth eich brawd William Jones, mewn oes gymharol fer, y swm anferth o dri chan mil o ddoleri, yn ol arian y wlad hon, yn ol arian eich gwlad chwi byddant yn rhyw driugain mil o bunnau."

JOHN JONES: Triugain mil o bynnau, nas cyffra i—dyna waith da!

ANN: Ma digon o'u heisiau nhw arnoch chi, mishtir bach. Wedi i Pinken farw 'doedd gennyh chwi ddim arian i gael buwch yn ei lle hi, a phe buaswn ni yn gwasgu am fy nhypyn cyflogau.

JOHN JONES: Ewch ymlaen, Morris, wr glân, peidiwch a gwranddo ar Ann. Garw y fath ddiddordeb y mae yn gymryd yn arian pobl eraill.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

ANN : Arian pobl eraill yn wir, a minnau yn mynd—

JOHN JONES (*yn rhoddi ammaid ar ANN i fod yn ddistaw*) : Ewch ymlaen, Morris.

MORRIS (*yn darllen ymlaen*) : “Yr wyf wedi fy mhenodi gan eich brawd yn ymddiriedolwr i'r ewyllys, ac yr wyf wedi cario allan ei ddymuniadau olaf i'r llythyren. Yr wyf wedi gwerthu yr eiddo, ac yn danfon i chwi “draft” am yr arian yn llawn. Yr eiddoch, Sam Pritchard.” (*Yn troi at JOHN JONES.*) Gadewch i mi eich llongyfarch, Syr, fel un o'r dynion cyfoethocaf fu erioed yn byw wrth droed y Mynydd Du.

JOHN JONES (*yn rhwbio ei ddwyllaw*) : Lychoch chi nawr. Ddim mor gyfoethog a Holeford y Dderi.

MORRIS : Lawer mwy cyfoethog.

ANN : A Jones y Gellideg.

MORRIS : Lawer cyfoethocach.

JOHN JONES : Hwre. Lychoch chi nawr. Dyma fachan fydd yn torri sgwars.

ANN (*yn clapio ei ddwyllaw*) : Hwre ! hwre !

JOHN JONES : Peidiwch a gwneud sylw o Ann, Mr. Morris. Y mae wedi cael rhyw chwilen yn ei phen heddi eto.

MORRIS : Quite so. Quite so. Ond gaf fi eich atgofio Syr, eich bod yn byw mewn oes y mae arian yn chwarae rhan bwysig iawn ynddi. Y mae arian

LLWYBRAU ANRHYDEDD

heddyw yn gallu agor pob drws ond drws y nef. Yn rhinwedd y trigain mil yna Syr, fe fydd safleoedd pwysicaf y wlad yn cael eu cynnyg i chwi. Yn awr, y mae yn rhaid i chwi ddihuno i'r amgylchiadau—diacon yn y capel—

JOHN JONES (*yn llonni, ac yn rhwbio ei ddwyllaw*) : Lychoch chi nawr.

ANN : Chware teg i mishtir. Y mae mishtir yn mynd i'r cwrdd bob dydd Sul. Chollodd e ddim dydd Sul eleni, ond pan ddaeth Beauty â llo bach, ac fe ddigwyddodd yr hen fuwch ddod ar amser cwrdd. Ond pan oeddynt yn dewis diaconiaid yn Salem, bu dim cymaint a son am enw mishtir.

MORRIS : Quite so. Quite so. Ond fe fydd John Jones, coeliwch chwi fi, yn eistedd yn y set fawr yn Salem cyn bo chwech mis arall wedi mynd heibio.

JOHN JONES : Lychoch chi nawr—yn y set fawr yn Salem yn ochor Jones y Gelli.

MORRIS : Quite so, ac nid yw hynny ond dechreu—Y Cyngor Sirol, Bwrdd y Gwarcheidwaid. Bwrdd yr Ustusiaid, a hyd yn oed Senedd Prydain Fawr, yn agored i'r gwr â'r cyfoeth, dim ond iddo wybod y ffordd i dynnu y “wires” yn iawn, a thalu eraill am wneud hynny.

JOHN JONES (*yn gwenu ac yn rhwbio ei ddwyllaw*) : Ie, lychoch chi nawr.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

MORRIS : Ac ymhellach, fe ellwch brynu llaw a chalon y ferch lanaf yn nyffryn Tywi am drigain mil o bunnau, a'i chael yn wraig yn y Tyddyn Llwyd.

ANN (*yn gweylltio ac yn taro ei throed yn erbyn y llawr*) : *For shame*, Morris, a dweyd sut beth. Os mai priodi mishtir er mwyn ei arian wnaiff hi, y mae yn well iddo fod hebddi. Ychydig o gysur gaiff e gyda hi.

JOHN JONES : Lychoch chi, peidiwch a gwneud sylw o Ann, Mr. Morris, y mae ei thafod yn hir ar brydiau.

MORRIS : Quite so. Quite so. Yr ydych yn awr yn byw mewn byd hollol newydd, Mr. Jones—byd y trigain mil. Ac y mae yn rhaid i chwi fyw i fyny â'r amgylchiadau. Gosodwch y trigain mil yn y banc, a byddwch fyw bywyd fel o'r blaen, a phaleshad fyddant i chwi. Na, na, y mae yn rhaid i chwi weithian fyw bywyd gwr bonheddig. Byw a thorri *stroke* nes bo Jones y Gelli a Holeford y Dderi yn mynd na fydd dim son amdanynt, a chyda y fath swm o gyfoeth fe allwch yn hawdd wenud hynny.

JOHN JONES : Nas cyffra i. Tycoch chi nawr. Does dim a garem yn fwy na byw fel Holeford y Dderi a Jones y Gelli, oherwydd y maent yn cael eu hanner addoli am eu cyfoeth, a pham nad allaf finnau. Ond y gwir ag e, Morris, yr wyf dipyn yn anllythrennog. Yr wyf yn gallu gwerthu moch yn

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Llandilo, a menyn ym Mrynaman, ond nas cyffra i, wn i ddim o'r ffordd i weithredu yn y cylch y mae Holeford a Jones yn troi ynddo.

MORRIS : O, y mae yn rhaid i chwi gael *Private Secretary*, Mr. Jones, a does dim a rydd mwy o bleser i mi na'ch gwasanaethu fel y cyfryw. Yr wyf wedi cael profiad helaeth o'r byd yma. Yr wyf yn gwybod am y "wheels bach" yma sydd yn troi. Yr wyf yn gwybod y ffordd i dynnu y "wires" yn amser etholiadau. Mi a'ch cynorthwyaf i dorri y fath *stroke* nes synnu gwlad gyfan, a'ch gwneuthur yn deilwng o'ch safle fel y gwr bonheddig pennaf fagwyd erioed wrth droed y Mynydd Du.

JOHN JONES : Lychoch chi, nawr. Bachan helyg wyt ti, Morris. Dyna setlo y peth. Rho dy law. Fi gwr bonheddig mawr a tithau yn *Private Secretary*.

MORRIS : Quite so. Quite so. *Honour bright*. Os caf fi fy ffordd, chwi fyddwch y dyn pwysicaf ac yn llanw y safleoedd uwchaf yn y wlad ymhen ychydig iawn o amser.

JOHN JONES (*yn rhwbio ei ddwyllaw*) : Lychoch chi nawr.

MORRIS : Ond y mae yn rhaid i chwi wrth lawer iawn o gyfnewidiadau, Syr. Rhaid i chwi wrth bethau ac wrth arferion fyddant yn eich gweddu fel gwr bonheddig mawr yn yr ardal. Yn gyntaf, y mae yn rhaid i chwi ordro "suit" o ddillad "of the very

latest cut," oherwydd y mae dillad yn oll bwysig yn yr oes hon. Os na fydd eich "*suit*" yn y "*latest fashion,*" cred neb eich bod yn wr bonheddig, a pharcha neb chwi fel y cyfryw ychwaith.

ANN : Ie, y mae eisiau dillad newydd ar mishtir. Does dim balchter ynddo fe. Pan fyddaf fi wedi trafferthu i gael ei golar yn loew, fe aiff mishtir i'r cwrdd dy' Sul wedyn yn ei grafat goch, am fod honno, ebai fe, yn fwy cymffyrddus. Yr unig tro y mae mishtir yn gwisgo colar yw pan bo *meeting* rhent, neu gymanfa bregethu yn Salem.

MORRIS : Quite so. Quite so. Wedyn, y mae yn rhaid cael *motor car*. Y mae *motor car* yn anhepgorol angenrheidiol i wneud gwr bonheddig.

JOHN JONES : Lycoc'h chi nawr, pwy fydd yn drifo rhyw greadur fel hynny. Alla i ddrifo Darby a'r cart am y goreu ag undyn, ond, nas cyffra i, wn i ddim y ffordd i ddrifo rhyw greadur fel yna, na wrandawa fe ddim ar "*Gee,*" a "*Come here,*" a "*Woa.*"

MORRIS : Fe wna Wil Sais Bach y tro fel *chaffeur*. Gydag ychydig bach o bractis fe ddaw Wil bach ati yn iawn.

ANN : Ie, ma ishe rhywbeth ar mishtir yn lle Darby a'r cart. Pan y mae yn myned dy' Sadwrn i farchnad Llandilo, ddaw e ddim gartre nes bo hi yn rhywbryd o'r nos. Rhyng bod Darby dipyn yn

gloff a mishtir yn galw yn y tafarnau mae e byth a hefyd ar yr hewl, ond chware teg i mishtir, mae e yn mynd i'r cwrdd bore dy' Sul wedyn.

MORRIS : Quite so. Wedyn Mr. Jones y mae yn rhaid defnyddio iaith fo yn gweddu gwr bonheddig, iaith hanner Gymraeg a hanner Saesneg, a thipyn bach o lediaith. Nid yw yn digymod â'ch anrhydedd chwi Syr iddweyd : "*Lycoc'h chi nawr.*" Y mae yn rhaid i chwi osod hwnna o'r neilltu, ac os bydd rhaid i chwi gael rhyw "*slang word,*" wel, gywedwch "*Snakes and Fiddlesticks,*" y mae yn gweddu yn well i wr bonheddig.

JOHN JONES : Lycoc'h chi nawr. Snakes and Fiddlesticks. Bachan helyg wyt ti Morris hefyd.

MORRIS : Fe gawn ni weld ymhellach eto ynghylch hyn Syr. Ac mi rof y "*tips*" i chwi eto yn ol fel bydd yr amgylchiadau yn galw. Gwell i ni fynd yn awr i ordro y dillad a'r *motor*, ac efallai i gael dropin bach ym mharlwr y *Red Lion* i ddathlu yr amgylchiad ac i yfed llongyfarchiadau i John Jones Esquire, a'r trigain mil.

JOHN JONES : Lycot ti nawr. Snakes and Fiddlesticks. (*Y ddau yn mynd.*)

ANN (*wrth ei hun ar y llwyfan*) : Ie'n wir, trigain mil o bunnau. Garw byth na buaswn wedi gwneud yn siwr ohono, a minnau wedi cael cymaint o gynnyg. Does gen i ddim golwg ar yr hen Forris yna. Mae

LLWYBRAU ANRHYDEDD

pawb yn gwybod ei hanes ef. Hen sgwlyn wedi colli ei job trwy feddwi. Y mae digon a gormod yn ei ben ef, ond y mae ei galon mor ddued a simne glo "ring." Pa eisiau iddo fe i "saco" ymhen mishtir y gallai fe gael y ferch lanaf yn Nyffryn Tywi os mynnai ef. Wyddis ar y ddaear beth osodith Morris ym mhen mishtir eto. Dyw i ddim yn talu i ferch fod yn rhy independant. Mae hi y rhan amlaf yn 'difaru.

LLEN.

(Caned ANN yn awr y penillion canlynol y tu blaen i'r llen. A thra byddo ANN yn canu cuffed eraill Siop y Saer yn barod y tu ol i'r llen. Ni fydd eisiau ond ffwrwm waith, ychydig o offer saer, ac ychydig ysglod ar y llawr.)

Y FERCH WRTH ODRE'R MYNYDD.

Cân i ANN i'w chanu.

(Caner hon ar yr alaw "Gwnewch bopeth yn Gymraeg," a dybler y ddwy linell olaf ymhob pennill er ffurfio'r gytgan.)

Rwy'n awr yn un ar hugain
O fiwyddi llawn mewn oed ;
Ac wedi byw wrth odre
Y mynydd mawr erioed ;

18

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Mae rhai yn hoffi teithio
I weld pellterau'r byd :
Ond byw wrth droed y mynydd
Y byddaf fi o hyd. Cytgan.

Rwy'n mynd i'r gwely'n gynnar,
Rwy'n codi gyda'r wawr ;
Caf glywed can yr 'hedydd
Ar ben y mynydd mawr.
Rwy'n godro'r gwartheg blithion
Bob bore a phob hwyr ;
A llaethi'r lloi yn gyson
Sydd wrth fy modd yn llwyr. Cytgan.

Mae rhai yn byw ar foethau,
A gwino'dd o bob math ;
Rwyf finnau'n iach fy ngruddiau
Wrth fyw ar gawl a lla'th :
Mae rhywrai mewn segurdd
Yn treulio'u hoes yn llwyr,
Ond gweithio byddaf finnau
O'r bore hyd yr hwyr. Cytgan.

Mae rhai yn gwisgo'n gostus
Mewn rhyw sidanau drud ;
A dilyn duwies ffasiwn
Eu hymffrost yn y byd.

19

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Caf finnau wisgoedd cynnes
O wllân y llwdwn du
Sy'n pori ar lechweddau
Y mynydd ger y ty.

Cytgan.

Pwy omedd im' freuddwydio
Am ddyddiau lawer gwell
Pwy omedd im' ddelfrydau
Ar ben y talfryn pell.
Pwy wyr na welir finnau
Os ffawd o'm hochor dry,
Yn wraig i'r cyfoethocaf
Wrth droed y Mynydd Du.
Cytgan.

Y llen yn codi.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

YR AIL ACT.

[*Siop y Saer.* DEIO'R SAER yn brysur yn
plamio astell, a PEGI'R LLOFFT FACH yn dyfod
i mewnt dan wau hosan.]

DEIO'R SAER : Wirione! y mae yn rhaid i mi
wneud brys. Y mae gennyf beth wmbredd o " jobs "
ar law. Llidiart i Dafydd Caegwyn, whilber i Deio
yr hewl, a rubber-tyre trap i John Jones y Tyddyn
Aur.

PEGI : Ia, dyna fe, a ble mae y ddau grwt
prentis yna gyda ti ? Rwy'n dweyd does dim gwaith
yng nghrwyn y crytsach sydd yn cael eu codi'n awr.

DEIO : Wirione! ma nhw wedi mynd allan er ys
amser. *Eight hours a day and very little work*—pan
oeddwn i yn apprentis, Pegi, *fifteen hours a day and
very much work* oedd hi.

PEGI : Ie, mae manteision addysg yn y byd
heddyw—peth nad oedd yn ein hamser ni, ond mor
bell ag wyf fi yn gallu gweled y pennaf peth y maent
yn ddysgu ydyw scheman rhywbeth yn lle gweithio.

DEIO : Yr wyt ti yn iawn fel arfer, Pegi. Y
ffaith am dani, dyw addysg yr oes hon ddim yn ddigon
ymarferol. Gofynnais i i un o'r hogiau yma pa

LLWYBRAU ANRHYDEDD

ddiwrnod i gowntio gwerth deuddeg score o fochyn am bymtheg swllt y score, a fedrai fe yn ei fyw â'i gowntio. Welaist ti erioed ffashwn beth? Gofynnais iddo wedyn am dynnu llun y mochyn ar dicyn o bapur, a mi gwnaeth ef—wel, allet dyngu fod y mochyn yn fyw.

(MALEN yn dyfod i mewn a brwsh.)

DEIO: Helo, ydych chwi yn myned i fudo rhywle?

MALEN: Yr wyf am i ti roddi coes yn y brwsh yma, os gweli fod yn dda, Deio. Pa ddiwrnod bu hwch Plas-pant yn yr ardd, a halais y brwsh oedd yn fy llaw i fleian ar ol y feiden, a dyma'r canlyniad.

DEIO: Ie, wirione, Malen fach. Hen dro fflat ofnadw—i'r brwsh. Helo, dyma un arall eto yn dyfod â rhywbeth i'w helpio; wirione, y mae y gweithdy yma yn mynd yn real *Surgery Doctor*, rwy'n gweld. Beth sydd eisiau wneud iddi?

JOS Y CRYDD (*yn cario stol neu gadair*): Stol y gwrandaw yn siop y crydd ydyw hon, ac y mae un o'i choesau hi yn rhydd er ys talm. Pwy ddiwrnod eisteddodd John Jones arni, a mi gas real godwm hefyd.

MALEN: Dyna ei setlo fe yn iawn. Y mae yr hen walch wedi myned yn rhy firoenuchel ac yn torri rhyw stroke ofnadw oddiar pan cafodd e y trigain mil ar ol Wil ei frawd druan, ond amser oedd Jaci ni yn

LLWYBRAU ANRHYDEDD

potsian oedd e yn dweyd yn wastad mai y deryn oedd yn hedfan uchelaf oedd yn fwyaf siwr o gael daear.

PEGI: Ia'n wir i chi, ac yr wyf fi yn mynd yn sâl wrth weled y ffus y maent yn wneuthur o John Jones wedi iddo gael yr holl gyfoeth yna. Pwy byth feddyliai y byddai yr hen Jac Tyddyn Llwyd yn torri fath stroke yn ei fywyd.

DEIO: Ie, ac onid yw yn biti garw mai i ddwyllaw dynion fel John Tyddyn Llwyd mae arian y byd yma yn myned—dynion nad ydynt yn gwybod y ffordd i'w defnyddio i'r amcan goreu. Y mae yn ymddangos fel pe byddai Rhagluniaeth i'w beio am roddi arian i lawer un.

PEGI: Ia'n wir, pe cawsai llawer y trigain mil punnau yna, fe a'u defnyddiai i ysgafnhau beichiau y bobl—i roddi bara i'r newynog, a dillad i'r carpiog. Y mae tylodi y cylch yma yn fawr iawn, ond yn fawr y bydd ef o ran y daioni wnaiff yr hen Jac Tyddyn Llwyd. Pwy glywodd son am dano ef na'i dylwyth yn gwneud tro caredig â neb erioed.

JOS Y CRYDD: Os na thâl e am ambell i beint i'r hen Jos y Crydd, wel, eled ef a'i hen drigain mi i grogi.

DEIO: Yn wir, bum i yn talu gwarogaeth mawr i ddynion cyfoethog, ac yn eu parchu ar gyfrif eu cyfoeth yn unig. Ond wrth ddarllen erthyglau gwerinol Walter Wynne y bugail yn y *Myrddin*

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Press, yr wyf wedi llwyr newid fy marn. Dyna fachgen ieuanc galluog i chwi. Y mae yn gosod y byd ar dân y dyddiau hyn. Ar goryn y mynydd, wrth fugeilio ei ddefaid, y mae yn creu drych-feddyliau ydynt yn destun syndod gwlad gyfan. Ond ar y gair dyma Walter Wynne yn dyfod.

(WALTER WYNNE yn dyfod i mewn, â dwy wningen ar ei ysgwydd, wedi gwisgo yn nillad bugail a sffon y bugail yn ei law.)

DEIO Y SAER *(yn gosod ei law ar ysgwydd*
WALTER):

Llencyn bach o fugail
O lethrau'r mynydd mawr,
Yn gwylio'r defaid mân a'r wyn
Rhwng grug a brwyn bob awr.

WALTER WYNNE: Ie, Deio bach,

Rwyf yno gyda 'nhelyn,
Yng nghwmni Moss y ci,
Yn canu cân o odlau serch
I'r ferch a garaf fi.

(Yn taflu y ddwy wningen i lawr, ac yn dweyd):
"John" a "Mary Jane."

JOS Y CRYDD: Where did you get the cwning-ods, man?

WALTER WYNNE: Tut, tut. Cymerwch beth y mae y duwiau yn eu rhoddi i chwi, heb ameu dim.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

(Yn troi at PEGI.) Pegi, y fan hon ych chwi. Bum yn galw i'ch gweld, ond ni chefais yno ond drws clo. Yr wyf wedi dod â chwningen fach i chwi. Meddyliais y byddech yn falch ei chael, a phethau mor ddrud a phrin. Yr wyf yn myned â'r llall i Rachel Tynyffordd. Y mae yn wael ei hiechyd er ys tro ac yn dlawd iawn ei hamgylchiadau. Pe byddai y cipar yn fy ngweled tebyg mai i'r carchar y cawsw'n fyned, ond carchar neu beidio caiff y tlodion ddim goddef eisiau bwyd cyhyd ag y bo pysgod yn afon Tywi a chwningod ar lethrau'r Mynydd Du. Hwriwch Pegi.

PEGI: Tenki, machgen i. Bendith fyddo arnat ti. Nawr oeddym yn siarad mai piti garw fod arian y byd yma yn myned i'r dwylaw *wrong* o hyd. Y mae tylodi y cylch yma yn fawr iawn, ac y mae arian drigain mil wedi syrthio i ddwylaw yr hen Jac Tyddyn Llwyd na fyddant o un bendith iddo ef nac i neb arall.

DEIO: Ie, piti na buasech chwi wedi eu cael nhw, Walter Wynne, er mwyn gosod yr egwyddorion yr ydych yn eu pregethu yn eich erthyglau mewn gweithrediad er ysgafnhau beichiau y bobl.

BILI'R TINKER *(yn dod i'r llwyfan yn gyffredin iawn ei wisg fel tramp, yn cario laces, studs, careion, almanaciau, caneuon, a chwrwyn cwningod—yn gwaeddi):* Buttons, Studs, a Chareion; Almanaciau

LLWYBRAU ANRHYDEDD

ceiniog yr un, a Chaneuon. Eisiau prynu heddyw ?
Bargen fawr heddyw !

(*Bydded i rywun y tu ol i'r llen i ysgwyd cadwyn,
ac i efelychu ci yn chwyrmu.*)

MALEN : Be quiet, Nero. Clywed arogl y crwyn
y mae e, Bili. Wnaiff e yr un niwed.

BILI : Eisiau prynu rhywbeth heddyw. Bargen
fawr heddyw, mam.

DEIO : Bryna i almanac gyda ti. (*Yn estyn
ceiniog.*)

BILI : Thankyou Sir. Peth yn wir a pheth yn
gelwydd.

PEGI : Par o gareion (*ac yn estyn ceiniog.*)

BILLY : Thankyou, mam. Para byth ond peidio
eu hiwsio nhw.

DEIO : Ti yw y bardd cadeiriol i fod yma heno,
Tinker, a fi ydyw yr arch-dderwydd i dy arwain yn
groes i'r llwyfan.

(*DEIO yn arwain y TINKER i ymyl y gadair â'r
traed yn eisiau. Yn cydio yn awr mewn darn o bren
hir, ac yn ei ddal uwchben y TINKER.*)

DEIO : A oes heddwch ?

Y CWMNI : Heddwch.

DEIO : Yr wyf yn dy gadeirio di, y Tinker, yn
fardd cadeiriol siop waith Deio y Saer, yn ol braint a
defod beirdd Ynys Prydain. Eistedd Bili.

(*BILI yn eistedd, ac yn syrthio ar ei hyd ar y llawr.*)

LLWYBRAU ANRHYDEDD

BILI (*yn codi*) : Yr hen epa dwl. Clown mewn
circus ddylet ti Deio fod, ac nid saer mewn lle bach
fel hyn.

Y CWMNI : Ha, ha.

MALEN : Wel, y Tinker, oes rhyw glonc heddyw?
rhai da yw y Tinkeriaid am hanes.

BILI : Smo'r hen Dinker yn gwybod dim o glonc
y wlad yn awr. Fi wedi bod i ffwrdd am dri mis yn
newid air yn nhre Myrddin, yn byw ar *skilly*.

PEGI (*yn codi ei dwylaw*) : Yn jail !

BILI : Yn jail yn byw ar *skilly*.

PEGI : Druan bach.

MALEN : Poor fellow. Am beth—am ddwyn
defaid ?

BILI : No blooming fear! Hen dinker ddim
dwyn—hen dinker mor onest a'r dydd.

JOS Y CRYDD : Wel, dwed sut y bu hi, y Tinker.

BILI : Wel, fel hyn yn gywir. Oeddwn wedi cael
hwyl dda i werthu un diwrnod, ac oedd y poced yn
drwm o docyns, ac oeddynt yn llosgi yn y boced, ac
euthum i mewn i'r *Red Lion* am "*throat oil*," ac mi
yfais beintiau a rhai peintiau yn ormod. Pan y
daeth hi yn *stop-tap*, dyma y Tinker yn myned allan
i chwilio am ei dent ac mewn heddwch â phawb, ond
wrth fyned i fyny yr heol pwy ddaeth i'm cyfarfod
ond plisman.

DEIO : Wirione! Plisman!

LLWYBRAU ANRHYDEDD

BILI : Ac yr oedd hwnnw dipyn yn hir ei dafod. Methodd Bili â dal ei elocution e. Dyma y pac i lawr i gael rhoi cwypwl o glowts iddo.

DEIO : Ie, sut y bu hi wedyn ?

BILI : Wel, mi rows i gwpwl o glowts iddo, ond mi glowtodd e yn ol.

JOS Y CRYDD : Ar fencos i, sut bu hi wedyn ?

BILI : Wel, mi gefais i ddau *black eye* a thri mis o garchar.

MALEN : Beth gas y plisman ?

BILI : Wel, ca's e ddim *black eye* na charchar, ac os ydych am fynd i fyw ar *skilly* am dri mis, y ffordd am dani yw, naill neu wado polisman neu saethu *pheasant*. Waeth i chi p'un.

Y CWMNI : Ha, ha.

BILI : Oes gennych chwi ddim crwyn heddyw ?

DEIO : Gyda y tlodion y mae crwyn cwningod i'w gwerthu yn awr. Y mae y byd yn dechreu cyfnewid. Y mae yma Samaritan trugarog o fugail sydd yn dal y cwningod ac yn myned â hwynt i'r tlawd ac i'r anghenus. Maddeued i mi am siarad fel hyn yn ei bresenoldeb.

BILI : A! Walter Wynne y bugail. Congrats., old boy, oddiwrth yr hen Dinker. Un o wroniaid y manau cudd ydyw hwn. Dyma y bachan sydd ar goryn y Mynydd Du yn saethu ei *machine guns*, ac yn taro mor galed nes peri braw yn holl wersyll y

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Philistiaid. Dyma y bachgen sydd â'i draed ar lwybrau anrhydedd, a'i ymgais i ddarnio llyffeth-eiriau gwerin ei oes, a'u harwain i gyfeiriad gwawr y dyddiau gwell. (*Yn rhoddi llythyr yn llaw WALTER WYNNE.*) Llythyr bach oddiwrth yr hen groten Mofrudd Puw—un o flodau dyffryn Tywi. Ond cofia machgen i fod yna groesau ar y ffordd i'r goron ar lwybr carwriaeth yn fynych, fel sydd ar bob llwybr arall. Y mae ei thad a'i mam yn dweyd y bydd pridd ar ei hwyneb yn y fynwent cyn y caiff hi briodi llencyn tlawd o fugail, ond *good luck*, machan i.

WALTER WYNNE : Hwre, dyma dair ceiniog i ti am gario'r llythyr, ond paid a'u gwario ar gwrw.

PEGI : Byddai yr un peth i chwi ddweyd wrth afon Tywi am lifo yn ei hol, a dweyd wrth dinker am beidio meddwi.

BILI : Quite right. Ma'r hen Dinker wedi claddu casgeneidau erioed, ond smo'r hen Dinker yn rhagrithio. Smo'r hen Dinker yn gwisgo rhyw ffug o santeiddrwydd ac yn myned i mewn trwy ddrws y bac i'r tafarn, a smo'r hen Dinker yn meddwi ar gwrw ocsiwn. Ond ma'r hen Dinker, os bydd chwech yn ei boced ef yn myned i mewn trwy ddrws y ffyrnt, yn galw peint, ac yn ei yfed ef heb ofalu dim am neb. Ah, bu gennyf dy a gardd, a gwraig a phlant—John a Mary Jane a Wil bach, ond ble ma nhw heddyw—ah, ble ma nhw heddyw ?

LLWYBRAU ANRHYDEDD

PEGI : Ah, machgen i. Ble ma nhw heddyw ?
(JOHN JONES a MORRIS yn dod ymlaen fraich ym mraich, ac yn disgwyl fel pe wedi yfed llymaid.)

MORRIS : A, dyma nhw, Syr—pobol y pentre bach—teulu y glonc, wedi cyfarfod yn siop Deio'r Saer. Gadewch i ni droi i mewn wrth basio.

MORRIS (yn annerch y cwmni) : Wel, pobol y pentre bach—yn gryddion, seiri, a thinceriaid, a holl wragedd y glonc.

PEGI : Gwragedd y glonc, yn wir! Os bydd menywod yn siarad am bum munud a'i gilydd, y maent yn cloncian, tra y mae yr hen wrywod yn siarad drwy y dydd mewn tai tafarnau, ac yn efail y y gof a manau eraill, a does dim son am eu cloncian hwy.

MORRIS : Nawr Pegi â dy dafod hir, paid di â disturbio fi yn awr ar y *speech*. Gaf fi gyflwyno yn awr i'ch sylw John Jones, Esq.—nid John y Tyddyn Llwyd mwyach cofier ond Squire Jones y Tyddyn Aur. Heddyw, yn werth trigain mil o bunnau—y dyn cyfoethocaf wrth droed y Mynydd Du. O hyn allan bydd y swyddi mwyaf urddasol yn cael eu cynnyg iddo a rhaid i'w air fod yn ddeddf yn y wlad. *Speech*, Squire Jones.

JOHN JONES : Lycoch chi nawr. Snakes and Fiddlesticks. Fi balch. Beth weda i, Morris?

MORRIS : Fi balch iawn o'r trigain mil—go on.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

JOHN JONES : Fi balch iawn o'r trigain mil. Fi mynd i actio y gwr bonheddig mwyaf yn y lle. Fi torri stroke nes peri i Jones y Gelli a Holeford y Dderi i mynd i'r cysgod am byth. Fi penderfynu cadw urddas ac anrhydedd y cyfoethog i'r lan, a fi dishgwyl ca'l parch fel gwr bonheddig.

Y CWMNI : Hwre!

MORRIS : Good-bye, pobol y pentre bach.

BILI : Laces, studs, careion.

(MORRIS yn cydio ym mraich JOHN JONES ac yn esgus myned ymhellach. Y llen yn syrthio a JOHN JONES a MORRIS y tu blaen i'r llen. Tra byddo JOHN JONES a MORRIS yn siarad y tu blaen i'r llen, symuder yn ddistaw pethau siop y saer i ffwrdd, a gosoder yn eu lle barlwr y Tyddyn Aur, bwrdd a chadeiriau, etc.)

[GOLYGFA : Ochr y ffordd (y tu blaen i'r llen).]

MORRIS : Ardderchog, Squire Jones. Gwnaeth Lloyd George nac Asquith ddim yn well efo'r maiden *speech*.

JOHN JONES : Lycoch chi nawr.

MORRIS : Rwyf wedi gosod yr advertisement am wraig yn y *Myrddin Press* yn iawn. Joke i ryfeddu fydd hi, Squire Jones. Yr wyf yn methu yn lân â pheidio chwerthin bob tro yr wyf yn meddwl am hynny. Os na fydd y *scheme* i droi allan yn llwyddiant ni gawn gryn lawer o ddifyrrwch, ac fe all

LLWYBRAU ANRHYDEDD

dyn â thrigain mil o bunnau ganddo i hyfforddio gael tipyn o ddiwyfwrch neu ynte y mae cystal iddo fod hebddynt.

JOHN JONES : Lycot ti nawr. Snakes and fiddlesticks. Bachan helyg wyt ti, Morris, hefyd.

WIL SAIS BACH (*yn dod â newyddiadur, ac wedi gwisgo fel gwas gwr bonheddig yn awr*) : Dyma y Myrddin Press, Boss.

(WIL SAIS BACH *yn myned allan.*)

MORRIS : Ar fencos i, dyma y papur wedi dod Syr. Gadewch i ni weled ydi yr *advertisement* i mewn. (*Yn edrych yn y papur, ac yn chwervthin.*) Ha, ha. Ydyw—dyma fe Syr yn iawn. (*Yn darllen.*) “Yn eisiau,—gwraig i fod yn ymgeledd gymwys i ddyn sydd yn werth o leiaf trigain mil o bunnau. Rhaid iddi fod yn ferch lân, yn drwsiadus ei gwisg ac yn deall *etiquette society*. Galwer yn bersonol neu ynte goheber gan ddanfôn *photo* i John Jones, Esq., Tyddyn Aur, ger y Mynydd Du. (*Chwervthin.*)

JOHN JONES : Bachan ar felltith wyt ti, Morris, ond wyddost ti, mae arnaf ofn nas cyffra i, i'r hen Ann ddod i wybod, ac yna fydd hi ddim yn dda yma. (*Yn dechreu siglo tipyn.*) Hic, hen gwrw cryf yn y Red Lion heddyw. Y mae yn myned trwyddof fi i gyd. Hic, rwy'n dechreu gweld sêr.

MORRIS : Pwy sêr, Syr ?

LLWYBRAU ANRHYDEDD

JOHN JONES : Hic, yr Aurora Borealis. Rwy'n mynd i gymeryd hwoi fach yn awr yn ochr y clawdd y fan hyn.

MORRIS : No. Come on, come on. Don't play the goat, man. Awn ni yn ol i'r ty, Syr.

(JOHN JONES a MORRIS *yn myned y tufewn i'r llen.*)

Llen yn codi.

Y DRYDEDD ACT.

[*Cegin neu barher y Tyddyn Aur.*]

ANN (*yn brysur yn glanhau*): Yn wir, mishtir bach, daethoch yn ol yn gynt nag oeddwn yn feddwl. Eisteddwch i lawr, Morris, os y gellwch gael lle. Y mae y cyfan yn sangdifan yma.

MORRIS: Thankyou, thankyou. Dipyn yn oer yw hi, ond yn wir y mae tân bach net gennych chwi. Mae hen groten bert o forwyn gyda chwi, Squire Jones.

(*Cnoc wrth y drws. ANN yn codi ei dwrn, ac yn dweyd "hisht" ac yn myned i'r drws.*)

ANN: Dewch i mewn.

(*Gweinidog Salem a dau ddiakon yn dyfod i mewn.*)

MR. HOWELLS, Y GWEINIDOG: Bore da.

JOHN JONES: Bore da, w.

Y DDAU DDIACON: Bore da.

JOHN JONES: Ishteddwoch i lawr—gweinidog a diaconiaid Salem, rwy'n gweld.

MR. HOWELLS: Gawn ni eich llongyfarch Squire Jones ar eich ffortun aruthrol. Rhyfedd onide ydyw troion Rhagluniaeth. Pwy fuasai erioed yn meddwl y byddai y brawd hynaws o'r Tyddyn Llwyd yn dod i'r fath gyfoeth diderfyn.

JOHN JONES (*yn curo y bwrdd ac yn dweyd yn gynhyrfus*): Lycoch chi nawr. Snakes and fiddlesticks own ni yn feddwl.

(*Y tri yn neidio ar eu traed wedi cael dychryn.*)

UN O'R DIACONIAID (*wrth y llall*): Ydi e allan o'i ben, dywed?

Y LLALL: Mae'n bosibl ei fod e, ond fu yr hen Jac Tyddyn Llwyd erioed yn gall.

ANN: Wir, mishtir bach, halwch ofn ar y bobl gwleï—

MORRIS: It's alright, gentlemen. Sit down.

(*Y tri yn eistedd ac yn cadw golwg ar JOHN JONES.*)

MR. HOWELLS: Ond carem ni i chwi gofio Squire Jones fod eich cyfrifoldeb yn fawr o'r modd y gwnewch ddefnyddio yr arian yma, ac fe ddylech ar bob cyfrif eu defnyddio i helpu achosion da, ac i hyrwyddo y deyrnas nad yw o'r byd hwn.

Y DIACONIAID: Ia'n wir.

UN O'R DIACONIAID: Yr ydym yn gwybod hanes y brawd John Jones yn dda. Y mae erioed wedi bod yn barod i gynorthwyo pob achos da hyd eithaf ei allu, a heddyw y mae ei allu i'r cyfeiriad hynny bron yn annherfynol, a gwn y bydd iddo actio y gwr bonheddig.

Y GWEINIDOG: I dorri y stori yn fyrr, Squire Jones, y mae Salem mewn dyled oddau cant o bunnau a rhwng y treuliau i gyd y mae yr achos yn pwysu yn

LLWYBRAU ANRHYDEDD

drwm ar ysgwyddau y frawdoliaeth, ac fel un o aelodau Salem am flynyddau gwyddom y byddwch yn barod i helpu i glirio y ddyled.

JOHN JONES (*yn edrych ar MORRIS ac yn curo y bwrdd*): Wel, ia, ond lycoch chi nawr. Snakes and fiddlesticks, yr wy

(*Y tri yn codi ar eu traed mewn dychryn.*)

ANN: Wel, mishtir bach, beth sydd arnoch chwi. Yr ydych yn hala ofn ar y dynion.

MORRIS: Sit down, gentlemen. It's alright.

JOHN JONES: Ond 'drychwch yma nawr. Pan bo dyn yn cyfrannu yn dda at yr achos y mae yn dishgwyl cael rhyw gydnabyddiaeth am hynny. Rwy'n cofio pan y daeth Jones y Gelli i'w dipyn ystâd, iddo gael ei osod yn ddiakon ar unwaith, ac oedd pawb yn gwybod nad oedd dim mwy o gymhwyster yn Jones y Gelli i fod yn ddiakon nac sydd mewn llyffant.

MORRIS: Efallai y caniatewch i mi fel *Private Secretary* i Squire Jones i ddweyd gair. Os ydi Squire Jones yn myned i glirio y ddyled y mae yn deilwng iddo i gael lle yn y set fawr yn Salem. Y mae yn sicr (*dan wenu ar y lleill*) fod ynddo gymwysterau.

MR. HOWELLS: Wel, y mae hyna yn gorffwys ar y frawdoliaeth pwy fyddant yn ddewis, ond fe wnawn ni ein goreu.

UN O'R DIACONIAID: Gwnawn yn wir, a does

LLWYBRAU ANRHYDEDD

dim a rydd fwy o bleser i ni na'ch cael yn ein plith yn y sedd fawr.

MR. HOWELLS: Credwn fod ynoch chwi gymwysterau i'r swydd, ac os y rhoddwch chwi yn anrhydeddus tuag at glirio y ddyled, gwn y gwna y frawdoliaeth yn fuan gydnabod hynny trwy eich ethol i'r ddiaconiaeth.

JOHN JONES: Ble rwyd ti yr hen secretary? Yn awr, ysgrifenna y cheque.

(*MORRIS yn ysgrifennu y cheque, ac yn cydio yn llaw JOHN JONES i'w llaw-nodi, ac yna yn ei rhoddi i'r gweinidog. Hwennw yn edrych ar y cheque ac yn gwenu. Yn ei dangos i'r diaconiaid, a'r rhai hynny yn gwenu.*)

UN O'R DIACONIAID (*wrth y llall*): Dyna ei blufio ef yn go lew.

MR. HOWELLS: Ardderchog, Squire Jones. Bendith fo ar eich pen chwi.

Y DIACONIAID: Ie, bendith ar eich pen chwi, Syr.

(*Gweinidog a'r diaconiaid yn myned allan.*)

ANN: Hwre. Mishtir yn ddiakon yn Salem, a finnau yn Mrs. Diacon wedyn. (*ANN yn myned allan.*)

JOHN JONES: Faint roddaist ti iddynt, Morris?

MORRIS: Dau cant o bunnau—digon i glirio y ddyled yn Salem, ac y mae y ddiaconiaeth mor sicr i chwi a bod y Mynydd Du ar ei sylfeini.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

JOHN JONES : Ie, lycot ti nawr. Odi hi yn costio i bawb fynd yn ddiakon, fachgen ?

MORRIS : Na, dim ond i real gwir boneddigion. (*Chwerthin.*) I newid yr ymadrodd, Syr. Y mae yr *advertisement* erbyn hyn yn sicr o fod wedi tynnu sylw rhianod broydd a bryniau. Tebyg y bydd yna lu o atebion. (*Yn edrych ar ei oriauwr.*) Y mae y post ar ddod. Gwell i ni wneud ein hunain yn barod.

JOHN JONES (*yn rhwbio ei ddwyllaw ac yn chwerthin*) : Bachgen helyg wyt ti, Morris, ond y mae arnaf ofn yn ty nghalon i Ann ddod i wybod.

(*Cnoc wrth y drws.* WIL SAIS BACH *yn dyfod i mewn â sachaid fawr ar ei gefn.* Gellir llanw y sach â gwellt, ac yna gosod ychydig lythyrau yn ei genau.)

WIL SAIS BACH (*yn gosod y sach i lawr, ac yn esgus sychu y chwys*) : Llythyron, Syr. Postman wedi torri braich a bron torri gwynt wrth cario nhw.

JOHN JONES : Wel, nas cyffra i, w. Snakes and fiddlesticks.

WIL SAIS BACH : Ha, ha. Fi specto. Fi wedi gweled *advertisement* yn y *Myrddin Press*. Mae yn hawddach cael gwraig na chael morwyn, yn enwedig i wr bonheddig.

JOHN JONES : Cer ona, bachan, neu mi gymra i y ffon yma atat ti. Ceir dim cario dim ymlaen yn y ty yma, na fydd yr hen grwt yma yn lygaid ac yn glustiau i gyd.

WIL SAIS BACH : Watchwch chi Ann, Syr.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Fi cretu ei bod hi wedi smello llygoten. Y mae ei gwallt hi yn dechreu sefyll ar ei wrych er ys amser.

JOHN JONES : Lycot ti, nawr. Snakes and fiddlesticks. Cer o' 'na, bachan. Cer i roddi bwyd i'r anifeiliaid.

(WIL SAIS BACH *yn mynd allan tan wenu.*)

MORRIS : Gadewch i ni ddechreu eu darllen, Syr. Does dim eisiau bod heb wraig a'r *applications* mor lluosog.

JOHN JONES : Ia, bachan budr wyt ti, Morris. (*Yn edrych yn wyllt oddiamgylch.*) Y mae arnaf ofn i'r hen Ann ddod i wybod.

MORRIS (*yn agor llythyr ac yn ei ddarllen*) :

Bryncariad,

My beloved Squire Jones,

I have noticed your advertisement for a wife in the *Myrddin Press*. I would be delighted to open correspondence with you which I hope will lead to an early marriage. I am well educated, having been four years at a boarding school. I can sing and play : I can dance anything from an Irish jig to a polka ; I am well up in the etiquette of high society, and I believe I am well adapted to be the wife of a gentleman worth £60,000. Enclosed photo. Hoping to hear from you by return,

Your loving Tootsey Wootsey,

Ishabella Hunt.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

JOHN JONES : Gad weld ei llun hi, Morris (*yn edrych yn llon ar y photo*). Nas cyffira i, dyma un bert; gwallt cwrl a bochau cochion, wyneb fel twmplin, a rings a bangles, a'i chanol hi—gall dyn ei spangid â'i law. Oh, my little Tootsey Wootsey Ishabella Hunt. (*Yn cusanu y photo*.) Gad weld ymhellach, Morris.

MORRIS : Llythyr oddiwrth merry widow ydyw hwn, thirty five years of age, a thri o blant. Y mae yn alluog (meddai hi) i chwarae y piano, i wau crocha, i rido y bicycle, i ddrifo y motor, ac y mae yn expert am farchogaeth thorough-breds ar ol cwn cadno.

JOHN JONES : Gad weld ei llun hi, Morris. Wir w, ond gad hi fan yna. Y mae gwidw fach yn alright pan y mae dyn yn methu cael merch ieuanc, ond y mae yn enbyd i ddyn â thrigain mil o bunnau i briodi gwidw. Gad weld eto.

MORRIS (*yn agor llythyr arall*) : Un o'r suffragettes ydyw hon, Syr. Ac ar fencos i dyma hi. Gwallt coch fel crib ceiliog ar ei phen hi. Dau lygad fel dau afal surion bach. Trwyn fel hanner bilwg a dwy fraich fel dau bost llidiart.

JOHN JONES : Gad weld ei llun hi, Morris. (*Yn edrych ar photo*.) Gad hi fana. Y mae yn rhy debyg i Betsi'r ddewines a scrapen penna'r wlad yw Betsi.

MORRIS (*yn agor y pedwerydd llythyr*) : Wel, ar

LLWYBRAU ANRHYDEDD

fencos i Syr, dyma ferch lân—y lanaf welais i erioed. Y mae wedi ei thynnu yn ei "hevening dress" a low neck. Y mae fel German Dolly. Y mae yn ddigon glân i fod yn wraig i'r brenin.

JOHN JONES : Gad weld ei llun hi, Morris ; wyddost ti beth, mae gormod o ddewis yn ddigon i ddrysu dyn. (*Cnoc wrth y drws*.) Gosod nhw o'r neilltu quick, quick. (MORRIS *yn gosod y llythyr* *yn y sach, yn gosod y sach ar y gadair, a JOHN JONES yn eistedd arni*.)

(*Cnoc eto wrth y drws*.)

MORRIS : Come in.

(*Daw i mewn ferch ieuanc wedi gwisgo mewn pluf a sidanau*.)

MORRIS : What can we do for you, Miss ?

Y FERCH : Please, Sir, I want to see Squire Jones privately. I have come in answer to his advertisement for a wife.

MORRIS (*wrth JOHN JONES*) : Gwell i mi fynd, Syr, does arnoch chwi ddim eisiau help eich *private secretary* i garu.

JOHN JONES (*yn grynedig*) : Na, paid mynd. Yr wyf yn dechreu mynd yn nervous eisoes.

Y FERCH (*wrth JOHN JONES, a MORRIS yn cilio yn ol tipyn*) : Well, as I just told you, I have come in answer to your advertisement. It has always been my ambition to marry a gentleman of means. Ma is saying that I am cut out for high society. I

have been on the continent, I can speak French and German fluently, I love to be with the wealthy class, for to me the common people are so horribly disagreeable and uninteresting—below my dignity.

JOHN JONES : Beth ma hi yn weyd, Morris ?

MORRIS : Y mae yn dweyd, Syr, mai chwi yw y dyn glanaf welodd hi erioed.

JOHN JONES : Wir w, dyna mae pawb yn ddweyd.

(Cnoc wrth y drws, a thair arall yn dod i mewn.)

UN O HONYNT : Gwelais eich advertisement, Syr, yn y papur, Syr, fod eisiau gwraig arnoch chwi, Syr.

Y LLALL : A finnau, Syr. Gallaf fi wneud gwraig dda i chwi. Yr wyf yn gwybod y ffordd i actio gwraig gwr bonheddig.

UN ARALL : Peidiwch chi a gwrando ar honna, Syr. Fi yn gwybod ei hanes hi. Gwidw yw hi â chwech o blant, ac y maent yn dweyd fod ei gwr hi yn y bedd achos bod hi y fath scrapen.

HONNO *(yn ateb)* : Bydd di yn ddistaw. Wn i dy hanes di—disturbo meetings politics ar hyd y wlad. Gwraig bert i wr bonheddig wnei di.

(Cnoc wrth y drws. WIL SAIS BACH yn dyfod i mewn.)

WIL SAIS BACH : Boss.

JOHN JONES : Wir w, be sy nawr eto bachan ?

WIL SAIS BACH : Fi gweyd wrthot ti, Boss,

peidio bod yn rhy wyllt i ddewis gwraig. Digon o ddewis, ma cannoedd yn dod. Fi gweyd y gwir, ma nhw yn dod fel i cymanfa fawr—hewl yn ddu i gyd o ferched a gwidwod.

JOHN JONES : Cer o na bachan. Cer o 'ngolwg i, neu mi ro y ffon i ti. *(WIL SAIS BACH yn myned allan.)* Wel dyma hi. Dy ddrygioni di Morris oedd hyn i gyd, a finnau ddim am i Ann i ddod i wybod. Chawn i ddim eu gwared hwy.

(Cnoc trwm wrth y drws, a hen ferch yn dod i mewn, ag esgidiau trymion am ei thraed, umbrella yn ei llaw ac yn cydio yn ei ganol ef, ac wedi gwisgo mor hynod ac sydd yn bosibl. Yn siarad yn uchel, ac yn fyddar.)

YR HEN FERCH : Ydi John Jones i mewn ? Y maent yn dweyd wrtho i fod eisiau gwraig arno fe.

MORRIS : Quite so. Quite so.

YR HEN FERCH *(yn uchel)* : Cwt llo. Cwt llo. Wel, os mai cwt llo yw e, dyw e ddim yn fargen ddrwg â thrigain mil o bunnau.

MORRIS : Quite so.

JOHN JONES : Wel, nas cyffra i. Dyma hi yn galch yn awr. Ti Morris wnaeth y cawl a finnau yn gorfod ei yfed ef. Mae tafod un fenyw yn ddigon drwg, ond pan y maent yn haid fel hyn, y maent yn fwy nas gall dyn glân ei oddef.

YR HEN FERCH : Dywedwch dipyn yn uwch. Yr unig fai sydd arnaf fi yw fy mod yn drwm fy

LLWYBRAU ANRHYDEDD

nghlywed, ond byddaf fi yn credu mai rhinwedd ydyw hynny. Dyw y menywod sydd yn drwm eu clywed ddim mor barod i gloncian.

MORRIS : Quite so. Quite so.

YR HEN FERCH : Tipyn yn uwch. Cwt llo wedsoch chi ? (*Yn troi at y lleill.*) Beth ma rhain yn mofyn ?

ANN (*â brwsh llawr yn ei llaw, yn dysod i mewr yn gynhyrfus, â blawd ar ei hwyneb ac wedi torchi ei llewys*) : Nawr, odi chwi yn ei whaco hi oddiyma y tacle ni. Welwch chwi y drws yna cyn bo y brwsh yma ar eich cefnau chwi. Doedd dim son am garu mishtir cyn iddo gael y trigain mil punnau yna, ond yn awr y mae pob hen groten a gwidw ar ei ol ef. Odi chwi yn ei whaco hi ?

(*Y merched yn rhedeg o'r llwyfan tan ysgrechain ac yn bwrrw ar draws ei gilydd.*)

ANN : Chi, Morris, wnaeth ryw waith fel hyn. Deithe dim sut beth i ben mishtir oni buasai chi. Ddysga i chwi pwy yw y feistres am unwaith.

(MORRIS yn rhedeg o'r llwyfan, ac ANN yn bwrrw y sachaid llythyrau ar ei draws ef.)

JOHN JONES : Lychoch chi nawr. Snakes and fiddlesticks. Rwyf wedi mynd yn nervous ofnadw. Creaduriaid budr yw y menywod yma.

LLEN.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

(*Caned rhywun y penillion telyn canlynol y tu blaen i'r llen ar yr alaw "Penrhaw," neu "Serch Hudol," a chaffer siop y crydd yn barod y tu ol i'r llen. Fferwm waith, morthweylion, par neu ddau o esgidiau, etc.*)

MAWR YW BRI YR ARIAN.

Penillion telyn, "Penrhaw" neu "Serch Hudol."

Yn hyn o fyd, wel coeliwch fi,
Mai *L s. d.* yw'r cyfan ;
Er mwyn yr aur o hyd, o hyd,
Mae'r byd yn fawr ei ffwdan :
A gwelir llawer mab a merch
A'u serch ar ddim ond arian.

Aeth Dai Tynfron yn fachgen llon
Ac iach ei fron i garu,
A chwrrdyd wnaeth tan lenni'r nos
A geneth dlos i r'feddu :
Siaradai Saesneg wrth y llath—
Ond nid oedd wa'th am hynny.

Roedd scent a phowdwr ar ei boch,
Yn wyn a choch yn glwstwr ;
Bob tro cusanai Dai ei Wen
Cai lond ei ben o'r powdwr :

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Ac ni bu harddach merch erioed
Yn sangu troed ar barlwr.

Roedd ganddi gannoedd yn y banc,
A'r llanc a garai'i harian
Roedd ganddi wyth o wartheg iach,
A thyddyn bach ei hunan ;
A Poodle Dog o'r enw Pat,
A Persian Cat ar bentan.

Ac meddai Dai : " My pretty girl—
My pearl, shall we priodi ? "
Ac meddai hithau : " Darling lad,
I shall be glad to marry."
Ac at yr allor aeth y ddau,
A chlymwyd Dai a Gwennie.

Roedd Dai yn codi gyda'r wawr,
A hithau fawr cyn cinio :
Y bodren fwyaf yn y wlad
Yn ddi-nacad oedd Gwenno :
Mewn sidan gwisgai hyd y llawr,
Gan wneuthur fawr ond ordro.

Roedd Gwennie'n magu'r gath a'r ci,
A Dai yn magu'r babi ;
Ac meddai hi yn fenyw "sgwar,"
" Now Davy, don't be lazy."

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Ac nid oedd rhyfedd am y boen—
Waeth caru'r " coin " wnaeth Davy.

Roedd Wil Tangraig yn gryn 'sgolhaig,
Yn berchen craig o arian,
Yn gyrru yn ei Fotor car
Yn fachan sgwar ofnatsan
Ac roedd y merched—fawr a mân—
Am dano bron yn benwan.

Rhyw eneth ddel o'r enw Nel
Un ffel wnaeth hwn briodi,
Ac ar ei arian rhodd y ferch
Ei serch nes bron a dwli.
Ond buan iawn y cafodd hi
Gryn achos i ddifaru.

Roedd Wil dan gwrlo ei " foustache "
Yn torri dash â'i arian,
Hyd un ar ddeg roedd yn y " Bell,"
Tra Nellie gartre'i hunan :
Lle na bydd cariad chlywir byth
Mewn unrhyw nyth ond griddfan.

Nawr wrth derfynu, fechgyn iach,
Rhof gyngor bach yn llawen :

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Na cherwch aur, ond ceisiwch ferch
Un serchog, bur, a chymen ;
Ac os bydd ganddi gyfoeth byd,
Wel—goreu i gyd y fargen.

A chwithau ferched rhowch eich bryd,
Tra yn y byd, ar rinwedd ;
Na cheisiwch lanc er mwyn ei aur,
Ond un fo'n glaer ei fuchedd :
Ceisiwch y bachgen fydd â'i dra'd
Ar lwybrau mad anrhydedd.

Llen yn codi.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Y BEDWAREDD ACT.

[*Siop waith JOS Y CRYDD. JOS Y CRYDD yn brysur yn gweithio. Daw WIL SAIS BACH i mewn.*]

WIL SAIS BACH : Oti sgidiau John Jones, boss fi, yn barod, Jos ?

JOS Y CRYDD : Not quite, my boy—byddant yn barod yfory. Yr wyf am eu gwneud nhw yn speshal, ac y mae yn cymeryd amser, wyt ti'n gweld.

WIL SAIS BACH : Alright, Jos. Fi galw yfory.

JOS : Edrych yma, boy ; oes yna gasgen fach wedi dod i'r Tyddyn Aur ?

WIL SAIS BACH : Oes, fi dweyd y gwir—casgeni cwrw a boxes whiskey any 'mount.

JOS : Wel, ar f'end i, hen Jos y Crydd yn dod â sgidiau i'r lan ei hunan bob cam.

(*PEGI a MALEN yn dod i mewn, tan wau hosanau.*)

MALEN : Odi esgidiau i yn barod, Jos ?

JOS : Not quite, my girl. Byddant yn barod yfory.

MALEN : Yn wir, y mae yn drugaredd na fydd dim eisiau esgidiau yn y nefoedd, waeth rwy'n ofni na fydd yno fawr o gryddion i'w cael. Y mae yr hen

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Jos yma wedi dweyd trigain a deg o gelwyddau am yr un par o esgidiau.

(*Daw DEIO y saer i mewn, ag esgid yn ei law.*)

DEIO : Rwyf am i ti g'wiro tipyn ar yr esgid yma, a chofia, Jos bach, mai tuallan ac nid y tufewn i esgidiau mae lle dwr i fod.

MALEN : Yn wir mae yr hen Jos yma fel pe wedi drysu yn ei ben oddiar pan y mae ei hen bartner Jac Tyddyn Llwyd wedi dod i'r holl arian yna, ond dyna fe, nid yw yn cymeryd llawer i ddrysu ambell un.

PEGI : Ia'n wir i chwi, a wnaeth neb fus obeutu John Jones cyn iddo gael y trigain mil yna. Coeliwch chi fi, fe fydd yn ddiagon yn Salem ymhen ychydig o amser—diagon yn wir—dyna lle bydd diacon. Y maent yn gweled, meddent hwy, gymwysterau arbennig ynddo i wneud diacon, ond peth rhyfedd na buasent wedi gweled cymwysterau ynddo cyn iddo gael y trigain mil yna. Tybed iddo gael y cymwysterau a'r arian yn yr un parsel.

JOS Y CRYDD : Y peth sydd yn fy synnu i ydyw gweled y merched a'r gwidwod yma yn cymeryd y fath ddiddordeb yn y dyn. Y maent bron a'i ddrysu ef. Cha'ff e ddim llonydd Sul na gwyl na gwaith, a chyn iddo gael yr arian oedd neb ond yr hen Ann druan yn meddwl dim ohono.

DEIO Y SAER : Wirione, credwch chi fi, os bydd dyn yn dylawd heddyw, bach yw ei barch ef,

LLWYBRAU ANRHYDEDD

ond os bydd yn gyfoethog, y mae yn cael ei hanner addoli.

BETSI'R DDEWINES (*wedi gwisgo mewn gwisg hynod fel gipsy neu "fortune teller," yn canu neu waeddu wrth ddod yn y pellter*) :

Fe lwydda rhai am ennyd fach
Trwy fywyd o ddichellion,
Ond llwydd nid erys neb yn hir,
Ond gwyr y llwybr union.

PEGI : Yn enw'r annwl, pwy sy yna ?

MALEN : Betsi'r Ddewines yw, mi wranta.

(*BETSI yn dod ymlaen.*)

JOS Y CRYDD : Helo, old Planed Reader. How de do, gel ?

BETSI : Paid ti â siarad mor ysgafn, yr hen Jos y Crydd, a phethau mor seriws. Mae digwyddiadau rhyfedd i fod yn y pentre bach yma cyn hau tri gwanwyn o g'irch.

JOS Y CRYDD : Wyt ti yn dweyd y gwir, girl.

BETSI : Fy secrets a gaf o'r planedau fry,
Dim ond y gwirionedd draethaf fi.

(*Daw WALTER WYNNE y bugail i mewn.*)

BETSI : Ah, dyma Walter Wynne yn dod, rwy'n gweld.

A—fachgen o fugail, trist yw dy ffawd,
A garw yw'r storm sy'n dy aros, frawd ;

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Ond heibio i'r stormydd cei lewyrch yr haul,
Ac eto cei wenau y blodau a'r dail.

ond rhaid i mi fynd. Lle tlawd yw hwn am arian
i Betsi'r Ddewines. (BETSI yn myned allan.)

DEIO'R SAER : Wirione, y mae y byd yn symud
ac yn symud yn gyflym iawn, a does fawr o goel yn
cael ei roddi ar ystoriau sipswn a fortune tellers yr
oes hon, a diolch am hynny. Ond beth bynnag sydd
i ddod o'r bugail bach, a pheth bynnag yw'r brâd a
gynllwynir i'w erbyn, mae iddo ffrynd yn hen Deio'r
Saer. Y mae yn rhaid wrth rhyw bethau heblaw
arian i wneuthur gwr bonheddig, ac nid yw arian yn
unig yn gosod traed neb ar lwybrau gwir anrhydedd.
Pe gofynnech i mi pwy ydyw y bonheddwr mwyaf
wrth droed y Mynydd Du, buaswn yn dweyd ar
unwaith mai dyma fe—Walter Wynne y bugail.

WALTER WYNNE : Diolch i chwi, Deio, ond
ofnaf fy mod yn annheilwng iawn o'r compliment.

DEIO : Dyma un o broffwydi'r oes. Y mae ei
erthyglau o blaid y gwan yn tynnu sylw gwlad gyfan.
Y mae yn tynnu y llen yn ol oddiar lygaid y werin
dlawd. Y mae ei lais yn galw ac y mae y werin fu
yn cysgu cyhyd yn dechreu deffro i'w hawliau, a
rhaid i'r segurwyr besgant ar waed i fyned i'w tynged.
Ac os ydyw yn creu gelynion wrth y cannoedd pa
ryfedd—onid yw y gwirionedd o hyd yn clwyfo.
Pwy bregethodd mwy o wirionedd na'r dyngarwr

LLWYBRAU ANRHYDEDD

mawr o Nasareth, a phwy wnaeth hefyd fwy o
elynyion mewn bywyd ?

WALTER WYNNE : Ar lethrau y mynydd yng
nghwmni fy nefaid a chyda fy nghi, y treuliaf fy
nyddiau. Yn swm yr awel tra yn chwarae efo'r
grug, yr eithin mân, a'r rhedyn, y caf ysbrydiaeth i
gyfansoddi. Ar goryn y mynydd y clustfeinaf, ac i fy
nghlustiau yr esgyn griddfannau y ddynoliaeth
dlawd. Gwelaf oddiyno y beichiau y mae yn rhaid
eu symud a'r cadwynau y mae yn ofynnol eu torri.
Gwelaf y gweithfaoedd glo lle y perygla y miloedd
eu bywydau i fyd y ddanchwa ac i sawyr y nwyau
afiach, a hynny er chwyddo cyfoeth y cafalafwyr.
Gwelaf balas dai y cyfoethogion, sylwaf ar foethau
y segurwyr hynny tra yr amaethwyr lawer o honynt
yn ymgrymu dan eu beichiau.

PEGI : Ia, druain bach.

JOS Y CRYDD : Digon o arian gan y gwyr mawr
ond y nhw ydyw y diwedda o bawb i dalu bill y
crydd.

WALTER WYNNE : Gwelaf yr hofelau afiach
lle y dygir i fyny blant bychain.

MALEN : Druain bach.

WALTER WYNNE : Ac o ben y mynydd yr
ysgrifennaf am danynt, ac y mae yn hyfrydwch
calon i mi feddwl nad yw fy llafur o blaid y gwan yn
gwbl ofer. Gwn fy mod wrth hynny wedi tynnu
eisoes gannoedd o bobl am fy mhen, a rhai ohonynt

LLWYBRAU ANRHYDEDD

o bosibl yn cynllwyn brâd i'm herbyn, ond ni wna hynny fy lluddias, canys parod wyf i farw dros egwyddorion. Ond wele John Jones a Morris yn dyfod i fyny yr heol. Cefais nodyn oddiwrthynt eu bod am fy ngweled. Gwell i mi fynd i'w cyfarfod. Dydd da.

DEIO : Bendith Deio'r Saer fo gyda ti, machgen i.

JOS Y CRYDD : Good luck, y bugail bach.
(*Y llen yn syrthio.* WALTER WYNNE *yn dod y tu blaen i'r llen i gyfarfod a* JOHN JONES *a* MORRIS.)

[GOLYGFA : *Ochr yr heol.*]

WALTER WYNNE : Dydd da, foneddigion.

JOHN JONES A MORRIS (*dipyn yn sarug*) : Dydd da.

WALTER WYNNE : Cefais nodyn oddiwrthych yn fy hysbysu eich bod am fy ngweled ar fater pwysig.

JOHN JONES : Wir i chi nawr, do. Ond fe eglura Morris y neges i chwi. Y mae ganddo well dawn ymadrodd na mi. Fe yw'r boy am siarad.

MORRIS : Wel, i ddod at y pwynt yn union, Mr. Wynne, yr ydym yn gweled eich erthyglau bob wythnos yn y papur dan y pennawd "Coryn y Mynydd Du," ac nid ydym heb gredu fod yr erthyglau

LLWYBRAU ANRHYDEDD

yn cael cryn lawer o sylw, ac y mae eich talent am lenyddiaeth o'r fath yn eithriadol, ond y ffaith am dani yr ydych yn ysgrifennu pethau na ddylech am gyfoethogion y wlad yma, a phobl yr arian mawr.

JOHN JONES : Lycoch chi, nawr. Snakes and fiddlesticks, pobl yn werth trigain mil.

MORRIS : I dorri y stori yn fyrr. Y mae Squire Jones am eich cyflogi chwi—hynny yw—am eich prynu drosodd.

JOHN JONES : Wir w, dyna fe, prynu drosodd.

MORRIS : Y mae Squire Jones am i chwi beidio ysgrifennu dim mwyach yn erbyn y cyfoethogion. Y mae am i chwi beidio dynoethi dim o'u ffaeiddau hwynt, ac ar adeg yr etholiad pan bo Squire Jones yn sefyll fel "candidate," y mae am i chwi ddefnyddio eich talent i ysgrifennu o'i blaid, a'i osod i mewn, costied a gostio, ac y mae Squire Jones yn cynnyg i chwi rodd o gan punt.

JOHN JONES : Ia wir w, can punt, a byddi di dipyn bach yn ennill can punt wrth fugeilio defaid ar y Mynydd Du.

WALTER WYNNE : Na wnaaf yn wir, y mae y pris yn annhraethol rhy isel. Cant punt am aberthu egwyddorion nas gellir eu pwyso mewn aur. Can punt am barlysu fy nghydwybod. Edrych ar yr anghyfiawnder a'r camwri a'r anonestrwydd sydd yn y byd, a chymeryd can punt am beidio ymyrraeth â hwynt. Na, gwell gennyf fynd i'r ystanc i farw dros

LLWYBRAU ANRHYDEDD

egwyddorion na'u gwadu hwynt er mwyn budr-elw. Chymraf fi ddim o'ch arian chwi, Squire Jones, ac yr wyf am i chwiddeall fod o'r hyn leiaf undyn wrth droed y Mynydd Du, nas gall arian ddim ei brynu. Dydd da. (WALTER WYNNE *yn myned allan.*)

JOHN JONES : Glywi di y sparbil, Morris ? Beth wnawn ni iddo. Cefais i ddim cymaint o fy insultio oddiar pan y deuthum i i'r trigain mil.

MORRIS : O, rhaid torri adenydd y gwalch a'i rwystro i ehedeg mor uchel, nas cyffra i, y mae yn rhaid i ni wneud rhywbeth, costied a gostio, waeth fe all hwnna â'i dalent lenyddol wneud difrod ofnadwy adeg yr etholiadau sydd i ddod. Ond gadawn iddo yn awr, Syr. Awn ar war y gwalch eto yn nês ymlaen. (*Pinner i fyny ar y llen (curtain) bapur mawr ac arno yn ysgrifenedig mewn llythrennau breision, "Eisteddfod Gadeiriol y Mynydd Du. Tocynnau, swllt a chwech cheiniog."*)

MORRIS (*yn edrych ar y llen*) : Y mae i fod yn ddiwrnod pwysig iawn yma heddyw, fel y gwyddoch, Syr—diwrnod Eisteddfod Gadeiriol y Mynydd Du. Y mae yr hen Eisteddfod wedi bod, ac yn bod yn llawer o atyniad i'r Cymry. Y mae gennyf eich llongyfarch, Syr, ar eich penodiad fel Cadeirydd yr Eisteddfod. Anrhydedd nid bychan mewn Eisteddfod fel hon, a lwc dda efo'r speech.

JOHN JONES : Wel, os nad ydyw y speech yn iawn, Morris, ti sydd i feio, waeth dy speech di ydyw.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Un dropin bach (*yn yfed o'r botel*) rwyf dipyn bach yn nervous, fachan. Dyna, gwell i ni fyned i mewn.

MORRIS : Na. Nid yw yn arferiad i'r Cadeirydd fyned i mewn yn rhy fuan. Gwell i ni aros i'r crowd fynd i mewn gyntaf.

JOHN JONES : O'r gore w.

MORRIS : Tipyn yn aflwyddiannus, Syr, bu yr advertisement am wraig . . . garw . . .

JOHN JONES : Ie, lycot ti nawr. Snakes and fiddlesticks. Mae gormod o ddewis yn ddigon i ddrysu dyn. Bachan budr wyt ti, Morris.

MORRIS : Pam na threiwch chwi Morfudd Puw, Syr ? Dyna ferch yn eich taro i'r tipyn.

JOHN JONES : Wir w. Pam wyt ti'n meddwl hynny ?

MORRIS : Yn gyntaf, y mae yn eneth dalentog iawn. Yn ail, y mae yn eneth lân iawn—y glanaf yn Nyffryn Tywi, ac y mae hynny yn dweyd llawer, oherwydd y mae Dyffryn Tywi yn enwog am lendid ei rianod. Ac yn drydydd ac olaf, y mae Walter Wynne y bugail yna yn dwli am dani, a fe garwn i i chwi ei phriodi, Syr, pe bae dim ond er rhoddi tro yng nghynffon y llanc peryglus yna sydd wedi cael gormod o'i ffordd yng ngholofnau y papurau yma yn ddiweddar.

JOHN JONES : Nas cyffra i, dyna waith da. Y mae arnaf eisiau rhoddi tos i'r llanc. Y mae arnaf lawer i hen chwech i'w thalu yn ol iddo.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

MORRIS : Son am Forfudd Puw, Syr. Dyma hi yn dod i'r Eisteddfod. Af fi o'r golwg, Syr, i chwi gael chwarae teg.

JOHN JONES : Beth weda i wrthi, Morris. Ffordd mae dechreu caru, fachgen ?

MORRIS : Dywedwch—annwyl, gariadus ferch : a gofynnwch am un gair bach gyda hi.

(MORFUDD yn dod ymlaen wedi gwisgo yn drwsiadus.)

JOHN JONES : Annwyl, gariadus ferch. Lychoch chi nawr. Snakes and fiddlesticks, own ni yn feddwl. Gaf fi un gair bach gennych chwi, w ?

MORFUDD PUW : Ond i chwi fod yn fyrr, Squire Jones, oherwydd yr wyf yn myned i'r Eisteddfod.

JOHN JONES : Ddewch chwi yn gariad bach i fi w—i John Jones y Tyddyn Aur—dyn sydd yn berchen motor car a da a cheffylau a lloi a defaid a moch a thrigain mil o bunnau.

MORFUDD : Na ddeuaf yn wir, Mr. Jones.

JOHN JONES : Sut hynny w ? Garw mor larch i chi w. Gallwch chwi roddi rhyw reswm ?

MORFUDD : Gallaf yn hawdd, Mr. Jones, pe bawn yn gwybod na wnawn eich insultio. Yn gyntaf ni wnaf garu a phriodi neb sydd yn ymwneud â diodydd meddwol. Yn ail, ni wnaf briodi neb er mwyn ei gyfoeth yn unig, oherwydd y mae yn cymeryd rhywbeth mwy na chyfoeth i wneud dyn.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Yn drydydd, ni wnaf garu na phriodi neb os na fydd delfrydau ei fywyd yn uchel, ac amcanion ei fywyd i lesoli cymdeithas ac i wella y byd, ac yn bedwerydd, ni wnaf briodi neb os na fydd synnwyr yn ei ben a gras yn ei galon, hyd yn oed pe byddai yn werth trigain mil. Dyna ddigon o resymau ar hyn o bryd, Mr. Jones, ac os y carech ychwaneg chwi a'u cewch hwynt eto. Dydd da.

JOHN JONES : Arhoswch funud w.

MORFUDD : Na. Dydd da.

JOHN JONES : Wel, nas cyffra i. Garw mor larch i chi w!

(MORFUDD yn myned allan. MORRIS yn dyfod i mewn.)

MORRIS : Dewch chwi, Syr. Ddaw hi i gywair gwahanol bob yn dipyn. Y mae fel y merched yma i gyd, ag eisiau ei choacsio dipyn. Os ydw i yn adnabod ei thad a'i mam yn iawn, adawa nhw ddim iddi briodi hogyn tlawd o fugail, pan y mae yn cael cynnyg ar ddyn yn werth trigain mil o bunnau. Ond gwell i ni fyned i'r Eisteddfod Syr, y mae yn hen bryd, a lwc dda gyda'r speech.

JOHN JONES : Ble mae'r tonic yn awr. O, dyma fe (yn yfed o'r botel), good. (Yn myned i mewn dan besychu a thynnu allan ei gadach boced, ac yn ymddangos yn sawreddog dros ben.)

(Eled amryw o'r cwmni yn awr y tu ol i'r llen ar y llwyfan, er mwyn cynrychioli pobl yr Eisteddfod.)

LLWYBRAU ANRHYDEDD

ARWEINYDD YR EISTEDDFOD (*o'r golwg y tu ol i'r llen*) : Barchus gyfeillion—Y mae yn bleser mawr gennyf fi i gyflwyno i chwi y Cadeirydd am y dydd, sef y Gwir Anrhydeddus a'r Cenedlgarol John Jones, Esq., y Tyddyn Aur—boneddwr yr ydym yn falch ohono, yn Gymro pur, yn hael ei galon, cefnogydd llen a chân, teilwng o urdd yr hen Frythoniaid, ac un o'r dynion mwyaf fagwyd erioed wrth droed y Mynydd Du. Y mae yn bleser mawr gennym ei gael yn y gadair, nid yn gymaint am fod eisiau Cadeirydd, ond er mwyn rhoi chance i'r pwyllgor ei odro—John Jones, Esq., Tyddyn Aur.

(*Y cwmni y tu ol i'r llen yn gwaeddi, "Clywch, clywch; hear, hear; speech, speech."*)

JOHN JONES : Ladies and Gentlemen. (*Hear, hear.*) Fi balch iawn i cal bod yn Eisteddfod, a cael bod yn Cherman. Lycoch chi, rwy' wedi anghofio nawr. Snakes and fiddlesticks. Beth sy nesaf, Morris. (*MORRIS y tu blaen i'r llen yn dweyd y speech yn ddistaw, bob yn frawddeg o flaen JOHN JONES.*) Fi credu mewn Eisteddfod—ma hi'n hen ac eto'n ieuanc. Ma hi wedi bod yn fendith i Cymru i ddatblygu llen a chân. Fi'n dymuno i Eisteddfod y Mynydd Du bob lwc a phob bendith. Fi'n teimlo drwg iawn ma fi wedi anghofio Cwmrag, ond ma fi caru glâd a iaith a chenedl. A fi rhoi cheque o ugain punt at yr Eisteddfod.

(*Uchel gymeradwyaeth y bobl oddimewn.*)

LLWYBRAU ANRHYDEDD

JOHN JONES (*yn dod allan, ac yn dweyd wrth MORRIS*) : Glywaist ti nhw'n cheero. Dyna ti stroke achen.

REPORTER (*yn dod ymlaen at JOHN JONES, ac yn saluto*) : Good day, Sir. Congratulations on your masterful speech. I will put it in the paper ; I am a reporter for the *Myrddin Press*.

REPORTER ARALL : Good day, Sir. Allow me to congratulate you on your splendid speech. We will do more than justice to it in the columns of our paper—*The Mynydd Du Herald*.

JOHN JONES : Be ma nhw'n weyd. Morris ?

MORRIS (*yn wincio ar y reporters*) : Eu bod yn mofyn bob o bunt Syr am gymhwyso y speech a gosod colofn ohoni yn y papurau.

JOHN JONES : Beth ma y sparbils yn siarad. Does dim gwella ar y speech i gal. Glywest ti fel oedd y crowd yn cheero ?

MORRIS : Ymestyn tipyn ati, a gosod colofn gyfan i mewn, a gosod uchel gymeradwyaeth y dorff rhwng cromfachau, yr un fath ag y maent yn wneuthur â speeches Lloyd George ac Asquith, ac y mae yn werth bob o bunt.

JOHN JONES : Odi, odi, nas cyffra i, yn werth bob o bunt. (*Yn rhoddi yr arian i MORRIS, i'w talu hwynt. Y ddau reporter yn bowio yn barchus ac yn myned.*)

JOHN JONES (*wrth MORRIS*) : Ydi Lloyd George

ac Asquith yn talu y reporters am gymhwyso y speeches cyn eu gosod yn y papurau ?

MORRIS : O na. Dim ond gwyr boneddigions mawr sy'n gwneud hynny.

JOHN JONES : Ie, lycot ti nawr, ond garw fel y mae yn costio i fod yn wr bonheddig mawr. Tut, af fi ddim yn ol i'r Eisteddfod eto. Hen le sych ar gorden sydd yna. Oes rhaid i mi fynd ?

MORRIS : Na, y mae yna arweinydd i'w gael at y gwaith, a dyw gwyr boneddigions mawr ddim yn aros yn yr Eisteddfod yn wastad, dim ond gwneud y speech a rhoddi cheque at yr achos.

JOHN JONES : Wel, mi wneuthum i hynny gydag arddeliad. Dere i barlwr y "Red Lion."

(Y ddau yn gadael y llwyfan.)

(Tynner i ffwrdd yn awr y papur—"Eisteddfod y Mynydd Du," a gosoder yn ei le y canlynol : Papur neu ddarlun-len o bistyll mawr, ac uwch ei ben yn ysgrifenedig mewn llythrennau breision : "Pistyll y Clonc." Os bydd darlun len o'r pistyll, goreu i gyd.)

[GOLYGFA : Pistyll y Clonc.]

(DEIO'R SAER, JOS Y CRYDD, MALEN a PHEGI—pob un yn cario ystên i mofyn dŵfr o'r pistyll.)

DEIO'R SAER : Wirione, y mae Matty heb fod yn iach ac yr wyf finnau yn gorfod mofyn dŵr.

JOS Y CRYDD : Ar fend i, does dim gwahaniaeth pa un a fydd Mari ni yn glaf neu yn iach, y fi sydd yn gorfod cario dŵr, a gwneud popeth bron, ond y mae Mari ni fel Lloyd George, y mae yn mynnyd cael yr High Command yn wastad—go drabits i, mae yr hen bistyll yma yn slow yn rhedeg.

MALEN Y GWEHYDD : Ie'n wir, yr hen Jos y Crydd ddywedodd y stori wrthyf fi, ac rwy i yn berffaith rydd. Does dim iws i fi agor fy mhen i ddweyd dim byd, waeth y maent yn dweyd ar fy ol i, a chwedyn yr wyf yn dod i ryw drwbwl o hyd. Dyna ryfedd y mae pobol yn taenu rhyw hen storiau pam na allant gau eu hen bennau. ?

JOS : Wel, beth sydd yn bod nawr, Malen fach ?

MALEN : Ond wedaist ti wrtho i fod John Jones a Morris wedi meddwi pwy ddiwrnod ?

JOS : Naddo, nas cyffra i, wedais i ddim sut beth.

MALEN : Yr hen labwt fel ag wyt ti. Does dim o honot yn cofio pan oeddit yn gwnio fy nghlocsen i ti ddweyd fod John Jones a Morris wedi meddwi.

JOS : Dweyd wneuthum i fod John Jones a Morris wedi ei dal hi heddyw eto.

MALEN : Ie, dyna fe.

JOS : Wedi bod maes yn hela ac wedi dal ysgyfarnog oeddwn i yn feddwl. A wedaist ti wrth bawb ?

MALEN : Cer ona ti, y burgyn salw. Mae chwant arna i roddi coten i ti y fan hon. Fy nhwylo

i i ddweyd sut beth obeutu y lle, a dyna beth cās, ac am wr bonheddig hefyd.

PEGI : Ia, ia, ond dywedwch chi a fynnoch, y mae y speed yn rhy gyflym ; mae yna rywbeth rhyfedd yn siwr o ddigwydd cyn bo hir. Mor wired a bod John Jones yn ddyn y mae yn sicr o ddod i ryw ddiwedd drwg. Yr oedd John yn ddigon dwl cyn iddo gael yr arian, ond y mae yn ddylach byth yn awr, ac y mae tan ddylanwad Morris yn llwyr, a buasai yr un peth iddo fod tan ddylanwad y gwr drwg ei hunan a bod tan ddylanwad Morris—mewn gwirionedd, yr un ydynt.

DEIO : Odi, a ma Morris i chi yn gallu hypnotiso. Fe glywais am dano yn y " Red Lion " un noson yn dweyd geiriau Groeg a Lladin, ac yr oedd yna ysbrydion aflan wrth y miloedd yn dod allan o'r gwelydd ac o'r cwpyrddau a phob man, ac yn dawnsio ar lawr y ty tafarn. Odi, yn siwr i chi, ac fe greda i ei fod yn hypnotiso John Jones, oherwydd y mae John Jones fel pe wedi ei ribo oddiar pan y mae tan ddylanwad Morris.

MALEN : Y mae yn rhaid i Walter Wynne i wylled ei hun. Y mae John Jones a Morris ar ei drack ef. Dyw y ddau ddim yn deilwng i ddatod carai esgidiau Walter Wynne, ond waeth hynny na pheidio y mae yn rhyfedd beth wnaiff arian yn y byd yma.

PEGI : Odi, odi, merch fach i, ond y mae hyn yn

ffaith, ddod arian ddim synnwyr yn y pen na gras yn y galon i neb.

BILI'R TINKER (*yn dod ymlaen pan oedd PEGI yn siarad*) : Ia, ia. Taw ni'n marw, arian yw hi heddyw. Os bydd gan ddyn dibs, i'r sêr fawr ag e, bang. Ma nhw'n hala natur Bili i godi wrth weld eu rhandibw nhw. Oni buasai fod arna i ofn cael mynd i fyw tri mis ar skilly eto, fe fyddai gwallt rhai ohonynt yn sefyll ar eu pennau ; in fact, byddai dim gwallt i gael gan eu hanner nhw. Ac nid ynunig i'r sêr fawr, ond i'r County Council ac i'r Parliament, y gwr â'r dibs, y gwr sydd yn gwybod y ffordd i dynnu y " wires " pia hi yn yr oes hon, a Duw helpo y pwr dabs.

PEGI : Wyt ti'n iawn, Bili bach. Rhyw sham a dim sylwedd yw yr oes hon. Pob un am wneud am y mwyaf o show. Y fath altrashwn yn fy amser i, onte! Y mae merched yr oes hon yn talu mwy o sylw i'r het sydd ar y pen nac i'r pen o dan yr het, yn astudio y " fashion books " yn fwy manwl na'r Beibl, ac yn credu fod yr hyn sydd am ddyn yn llawer mwy pwysig na'r hyn sydd mewn dyn, a phob un ar ei oreu yn ceisio scheman rhywbeth yn lle gweithio. A—fel arall y ces i fy magu. Doedd fawr o son am bluf a blodau a bangles am addurnau, a rings, a bicycles, a ffol-di-rol yr amser ces i fy magu, ac y mae balchter a hunanoldeb a diogi yn bethau sydd yn cael eu hedmygu heddyw ymhob cyfeiriad.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

DEIO : Ia, ond y mae yr oes yn symud yn gyflym ac y mae yna ddynion heddyw yn fwy ar ddiun na bu dynion erioed. Wyt ti a finne, Pegi fach, yn myned yn hen, ac yr ydym ni allan o'r byd mewn ystyr heddyw. Y mae addysg a diwylliant heddyw beth na welaist ti a finnau erioed.

BILI'R TINKER : Ha, ha. Byth nas cyffra i, y mae y byd yn symud. Mae'r hen Bili yn ei weld yn symud. Does yna yr un hogyn difarf yn hapus heddyw os na fydd yna lythrennau ar ol ei enw ef. Y mae amser braf i ddod ar y wlad yma gyda boys y colegau—bechgyn y degrees yma, cyn bo hir, coeliwch chi fi. Fe fydd polion "football" ar y caeau yn lle tomenni pridd a chalch; sentences Greek ar y certi yn lle twmpathau o ddom; codi clawdd a mesur pishyn o dir wrth broblemau o Euclid; a "notices" cwrt bach yn y ty yn lle receipts rhent. O oes, coeliwch chi fi, y mae amser braf i ddod.

JOS Y CRYDD : Wel, ar fen'd i y mae yn lively ym mhystyll y glonc rhyngo chi i gyd: Malen y gwehydd yn siarad am garu y gymdogaeth, y Tinker yn siarad fel llyfr y Diarhebion ag eisiau ail bob i byd. Deio y crydd yn siarad am erthyglau Walter Wynne a hawliau'r werin, a Phegi'r llofft fach yn dadleu fod pob peth o werth yn y byd yma wedi marw gyda'r hen bobl. Does yma le i ddyn glân o Gymro i roddi ei big i mewn.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

BILI'R TINKER : A—dyma Morfudd Puw, cariad Walter Wynne, yn dod. Mae'n wir fod eisiau rhywun i ail bob i'r byd, i roddi tro yng nghynffon y bobl hynny sydd yn cadw y werin dlawd i lawr ac i roddi tipyn o gryfder yn asgwrn cefn y wlad, a gallwch chwi fentro, mai Walter Wynne y bugail yw y dyn.

MORFUDD PUW (*yn troi at y cwmmi*) : Rwy'n synnu na fuasai chwi yn yr Eisteddfod heddyw, a'r Eisteddfod yn y pentre yn yr ymyl. Os nad ydych wedi clywed, Walter Wynne sydd wedi ennill y gadair.

DEIO'R SAER : Hwre. Nas cyffra i! Well done, y bugail bach.

PEGI : Am beth cas e y gadair?

MORFUDD PUW : Am y bryddest oreu ar Hawliau'r Werin, ac yr wyf yn credu y bydd yn dod y ffordd hon yn awr. Dyma nhw yn dod. Clywch y gwaeddi. (*Dau yn cario WALTER WYNNE ar eu hysgwyddau, yn ymdaith o amgylch y llwyfan, ac yn canu, "For he's a jolly good fellow." Uned teulu'r glonc yn yr orymdaith.*)

[GOLYGFA : Ymyl y ffordd.]

(JOHN JONES a MORRIS y tu blaen i'r llen.)

JOHN JONES : Wel ar fen'd i. Byth nas cyffra i, geneth ddel yw Morfudd Puw—yr harddaf yn y dyffryn. Rwyf yn teimlo dros fy mhen a'm clustiau

LLWYBRAU ANRHYDEDD

mewn cariad â hi, ond garw mor larch yw hi. Does gennyf fi fawr o dalent i garu ychwaith. Mae'n well gen i wneud speech o flaen llond pafiliwn o bobl, na siarad ag un ferch, yn enwedig ag un mor ffraeth ei thafod a Morfudd Puw. Mae hi mor groes i ddyn yn yfed, neu pe buaswn i yn cael dau beint o gwrrw, fe wnaethwn yn lled dda. Wyt ti'n meddwl fod chance Morris?

MORRIS: Chance! Oes, yr oreu yn y byd, Syr, ac ymhellach, y mae dylanwad y tad a'r fam o'ch plaid. Os oes yna rywrai wrth droed y Mynydd Du yn caru arian, y maent hwy eich dau.

JOHN JONES: Good, good. Lycoc'h chi nawr. Snakes and fiddlesticks. A thousand pounds and the girl mine.

MORRIS: Ond coeliwch fi, Syr. Y mae yn rhaid cael Walter Wynne o'r ffordd yn gyntaf. Y mae hwnna yn dod yn fwy peryglus bob dydd gyda ei erthyglau yn y papurau yma. Fe aeth â'r gadair yn slic yn yr Eisteddfod ddoe, ac yr oeddwn ni wedi meddwl yn gryf am y gadair hefyd. Peth arall, y mae yn dyfod yn favourite mawr gyda'r gweithwyr. Y mae byth a hefyd yn siarad yn eu cyfarfodydd, ac y mae y si ar led eu bod yn mynd i'w ddewis fel ymgeisydd ar y Cyngor Sirol, ac fe fydd yn lled sic'r o'r sedd, gan fod y gweithwyr yn y mwyafrif. Ond y mae yn rhaid cropio adenydd y gwalch cyn y mag ef ormod o bluf.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

JOHN JONES: Ie, ond lycot ti nawr. Y point ag e yw y ffordd i gael ei wared ef.

MORRIS: Y mae gen i gynllun, Syr, ac yr wyf yn credu ei fod yn "horse of the right colour" hefyd.

JOHN JONES: Yn wir, gwr da wyt ti Morris. Gad glywed dy gynllun.

MORRIS: Ei gosbi am athrod ac am ddwyn defaid.

JONES: Ie, lycot ti nawr. Ydi e yn euog?

MORRIS: Wel, y mae yn euog o "libel." Dyma fel y mae wedi ysgrifennu am eich speech chwi, Syr, yn y papurau. Trueni na fuasech wedi rhoddi punt iddo fel i'r lleill—ond dyna fe, cymer y creadur ddim o'i bribo.

JOHN JONES: Lycot ti nawr. Na, fe wrthododd gan punt.

MORRIS (*yn darllen o newyddiadur*): Dyma fel y mae yn dweyd dan y pennawd, "Coryn y Mynydd Du." Rhyfedd fel y mae'r hen Eisteddfod yn ei hamcanion goruchel yn cael ei llygru y dyddiau hyn. Addolir arian heddyw yn lle talent. Yn Eisteddfod y Mynydd Du y dydd o'r blaen gosodwyd yn gadeirydd ddyn ariannog nad ydyw mewn cydymdeimlad lleiaf a dim sydd o nodwedd ddyrchafol perthynol i'n cenedl. Ceisiodd wneuthur speech i agor yr Eisteddfod ond yr oedd y speech yn ddiraddiad hyd yn oed ar ddyn heb siarad gair yn gyhoeddus erioed. Ac wedi traddodi ei araeth rhyfeddol ymneilltuodd i barlwr y "Red

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Lion, "lle y treuliodd ei ddiwrnod yng nghwmpeini ei gyfeillion uwchben y cwpan damniol. A raid i bethau fel hyn fod? Pa hyd, fy nhgydwladwyr annwyl, pa hyd?" Dyma y libel, Syr. Beth wnawn ohono?

JOHN JONES: Ei gosbi, pe y costai fil o bunnau. Y mae yn rhaid ei gospi. Rhyw sparbil fel yna yn dweyd nad oedd y speech ddim gwerth, a llond pafiliwn o bobl wrth ei gwrando yn clapio nes oedd y lle yn fyddarol.

MORRIS: Yn nesaf, y mae yn bosibl nad yw yn euog o ddwyn defaid. Ond y mae yna ddynion ar y Mynydd Du yn barhaus yn dwyn defaid. Ac y mae un o'ch defaid chwi ar goll, Syr, ac o bosibl wedi cael ei dwyn gan rywun. Wel, cofiwch chwi, Syr, dim gair wrth neb am hyn.

JOHN JONES: Fel y bedd, machan i. Unrhyw beth er mwyn cael y sparbil bugail yna o'r ffordd, er mwyn cael siawns ar Morfudd Puw, ac er mwyn election y County Council. Ond rwy'n ofni mai cryn job fydd ei convicto fe.

MORRIS: So far, good. Yn awr, ond cael dau dyst, fe ellir yn hawdd profi i'r barnwr fod yr hogyn bugail yn euog o ddwyn y ddafad. Ac y mae y tystion i'w cael yn rhwydd am arian. Y mae Jac Noodles yn foddlon tyngu unrhyw beth hyd at grogi dyn am ddeg punt, ac fe fydd Dai Shams Puw yn foddlon tyngu iddo weled Walter Wynne yn myned

LLWYBRAU ANRHYDEDD

â'r ddafad ar ei gefn o'r man lle cymerodd y lladrad le am bymtheg punt. Two witnesses, Syr, and a rattling good solicitor, and Walter Wynne will be in jail.

JOHN JONES: Wel, nas cyffra i, gwr da wyt ti, Morris. Wel, ati ar unwaith—y polis ar ei war ef.

MORRIS: Good, good. Rwy'n meddwl i mi ei weled ef yn myned i'r cwrdd gweddi yn Salem.

(Y ddau yn myned yn frysio g o'r llwyfan.)

(Y llen eto i lawer ynghanol y llwyfan. Gosoder i fyny arni bapur a'r geiriau hyn mewn llythrennau breision: "Vestry Salem, A.D. 1897." Bydded i'r cwmni yn awr, ond JOHN JONES a MORRIS i fod y tu ol i'r llen i gynrychioli y gynulleidfa. Y gynulleidfa yn hemian:

*Dy dangnefedd, Dy dangnefedd, Dy dangnefedd,
Dyro i ni yn barhaus.)*

YR HEDDGEIDWAD *(yn dyfod yn weyllt i'r llwyfan, yn edrych dipyn o'i amgylch, ac yn siarad â'i hun, gyda thipyn o lediaith):* A—tebyg mai dyma lle mae fe. Rhaid i mi dal fe yn awr wrth ddod allan. A—rhyfedd fel mae hen emynau Cwmbrag yn toucho teimlad fi. Ma nhw yn mynd deep lawr i calon fi. Hen job dylawd ydyw job polisman lawer pryd. Un o fechgyn goreu y Mynydd Du ydyw Walter Wynne, ond y mae wedi digio y gwr â'r trigain mil, a rhaid

LLWYBRAU ANRHYDEDD

i mi dal fe neu colli job fi. A—dyma nhw yn dod allan. (*Y gynulleidfa yn dyfod gan gerdded y tu blaen i'r llen.* WALTER WYNNE a MORFUDD PUW yn olaf. *Y gynulleidfa yn edrych gyda syndod ar yr heddeidwad wrth basio.*)

YR HEDDGEIDWAD (*yn gafaelyd yn* WALTER WYNNE): Rhaid dod, bachgen fi. Ti yng ngafael y cyfraith.

WALTER WYNNE: Am beth, Constabl? Nid wyf wedi gwneuthur drwg trwy wybod i mi. Rhaid fod yna ryw gamsynied.

YR HEDDGEIDWAD: Na, dim mistake, bachgen fi. Fi cymryd ti yn "prisoner" am "libel" yn erbyn John Jones—yn condemnio speech fe yn y *Myrddin Press* a'r *Mynydd Du Herald*. Heblaw hynny, y mae yna "charge" yn dy erbyn di am dwyn dafad.

WALTER WYNNE: Wel, os oes rhaid dod, Constabl, ar eich cais yn ufudd mi a ddeuaf.

MORFUDD PUW: O, Walter annwyl!

WALTER WYNNE: Mae pob peth yn iawn, fy ngeneth i. Am y charge cyntaf y mae pob un wrth droed y Mynydd Du yn gwybod fod yr hyn a ysgrifennais yn berffaith wir, a'r gwirionedd sydd yn clwyfo. Am yr ail sef dwyn dafad, mae Duw yn y nef yn gwybod mod i yn ddieuog, a byddai yn well gennyf farw o eisiau bywd na dwyn dafad neb.

MORFUDD PUW: Ie, ond Walter annwyl, beth

LLWYBRAU ANRHYDEDD

os tyngant anwiredd arnoch chwi. Y mae yna ddyinion dynt yn ddigon rhydd i dyngu yr anwireddau pennaf o eiddigedd, ac er cyrraedd eu hamcanion isel a gwael.

WALTER WYNNE: Wel, os mai'r carchar bydd fy nhynged, y mae hyn yn gysur i mi, fod fy ngwell i wedi dioddef ar gam cyn hyn, ac wedi bod mewn carchar hefyd, ond ai tybed, Morfudd annwyl, y gallaf ymddiried i chwi y byddwch yn ffyddlon i fachgen o fugail tlawd sydd wedi myned dan gondemniad cyfraith ei wlad am athrod ac am ddwyn defaid?

MORFUDD PUW: Walter annwyl, pe byddai yr holl fyd yn colli ymddiriedaeth ynoch, eto ni chollaf fi. Dan warthrudd carchar, barn, a chondemniad mi a gredaf yn eich diniweidrwydd, ac mi a gredaf yn eich amcanion goruchel, ac ni oera y carchar byth fy nghariad tuag atoch. Cyhyd, ie, cyhyd a bo y Mynydd Du ar ei sylfeini ac afon Tywi yn llifo drwy y dyffryn tua'r môr, mi a'ch caraf ar waethaf pawb a phopeth a chariad di-droi'n-ol.

WALTER WYNNE: Good-bye, fy ngeneth i. Caled yw y dynged.

MORFUDD PUW: Good-bye. O, ryfedd dynged.

(*WALTER yn mynd gyda'r heddeidwad.*)

MORFUDD PUW (*tan wylo*): O ie, rwy'n

LLWYBRAU ANRHYDEDD

gweld drwy eu cynlluniau hwynt. Schemes John Jones a Morris yw hyn i gyd. "Jealousy" sydd wrth wraidd y cyfan. Ond mor wired a bod yna Dduw yn y nef, fe ddaw barn arnynt yn hwyr neu yn hwyrach am hyn.

(MORFUDD *yn myned allan.*)

[GOLYGFA : *Treial Walter Wynne.*]

(*Bwrdd, ychydig gadeiriau, a rhywbeth ar lun "witness box," os yn bosibl. Casser yr olygfa hon yn barod y tu ol i'r llen tra byddo yr act olaf yn cymryd lle y tu blaen i'r llen.*)

CYMERIADAU.

Barnwr, clerch y llys, cyfreithier, tystion, heddgeidwad, a gall teulu y glonc ac ANN hefyd fod yn bresennol.)

Y llen yn codi.

CLERC Y LLYS (*yn darllen*) : John Jones *versus* Walter Wynne. Libel and sheep-stealing.

(*Yr heddgeidwad yn arwain WALTER WYNNE i'r "witness box."*)

CYFREITHIWR : I appear on behalf of the plaintiff, my Lord.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

WALTER WYNNE : Gwnaf amdiffyn fy hun hyd y medraf, ac yr wyf am wneuthur cais, eich Arglwyddiaeth, gan mai yng Nghymru yr ydym yn byw, ac mai Cymraeg ydyw iaith y wlad, fod yr holl weithrediadau ynglyn â'r achos hwn i'w cael eu cario ymlaen yn yr iaith Gymraeg.

BARNWR : Good gracious me, what an absurdity! But go on, te. Fi am bod yn teg, a fi treial gore fi. (*Yn troi at WALTER WYNNE.*) Ti euog neu dieuog?

WALTER WYNNE : Dieuog eich Arglwyddiaeth, ac yr wyf yn meddwl y gallaf—

BARNWR : Aros munud. Dim gwahaniaeth peth ti feddwl.

WALTER WYNNE : Wel, os caniatewch i mi y cyfle, credaf—

BARNWR : Ti cau ceg, bachan, a dim wastio amser y court. Nid peth ti credu, sy pwysig, ond peth fi credu, a fi sy penderfynu yn court fi.

BILI'R TINKER : Shame.

DEIO'R SAER : Ie, wirione.

BARNWR (*gydag awdurdod*) : Order.

YR HEDDGEIDWAD (*â llais uchel*) : Order in court.

CYFREITHIWR : Y mae yna ddau case yn erbyn y carcharor, fel y gwyddoch, eich Arglwyddiaeth, ac er mwyn arbed amser y court, rwy'n cynnyg fod y ddau case yn cael eu hystyried yr un pryd.

BARNWR : Very good.

CYFREITHIWR : Am y case cyntaf, sef y libel, y mae eich Arglwyddiaeth, mi wn, wedi darllen yr erthygl, ac fe gyfaddefwch, rwy'n sicr bod hi yn erthygl beryglus iawn. Pan y mae rhyw hogyn tlawd o fugail yn mynd i dafu llaid at un o foneddigion urddasolaf yr ardal y mae yn beth serious iawn, ac y mae yn hen bryd rhoddi stop ar bethau o'r fath

BARNWR : Ti quite right.

CYFREITHIWR : Am yr ail, sef dwyn dafad, y mae gennyf ddau o dystion, a rhai hynny yn ddynion o ymddiriedaeth, i brofi fod y carcharor yn euog.

BARNWR : Right. Ti galw tystion ar unwaith.

CYFREITHIWR : David James Puw.

YR HEDDGEIDWAD (*yn gwaeddi*) : David James Puw.

(*Daw DAI SHAMS PUW i mewn, wedi gwisgo fel un o'r gwehilion, yn cerdded yn drwm, ac yn cadw ei het am ei ben, ac yn smocio pibell glai.*)

BARNWR : Constabl, paid ti gadael witness â het am y pen yn court fi.

YR HEDDGEIDWAD : Began pardwn eich Arglwyddiaeth. (*Yn bwrrw yr het oddiar ben y tyst, ac yn cydio yn y bibell.*)

DAI SHAMS PUW (*yn ysgyrnygu ei ddannedd*) : Ugh.

CYFREITHIWR : Dywedwch chi plain story yn awr wrth y judge.

DAI SHAMS PUW : Gwelais i y crwt yna—beth i chi yn ei alw—Walter Wynne yn mynd â dafad ar ei gefn o'r Tyddyn Aur.

CYFREITHIWR : Dyna fe profi case to the hilt.

BARNWR : Ti gweyd i ti weld Walter Wynne ar gefn y dafad.

DAI SHAMS PUW : Ugh. Pwy giwad o ddyn yw hwn, boys? Dweyd wneuthum i i fi weld y dafad ar gefn Walter Wynne.

BARNWR : That will do.

CYFREITHIWR : John Noodles.

YR HEDDGEIDWAD (*yn gwaeddi*) : John Noodles.

(*JAC NOODLES yn myned i'r witness box, gan gario trapau gwaddod.*)

BARNWR : Constabl, pam wyt ti yn gadael i hwnna dod mewn â goods pysgota gwaddod ganto?

YR HEDDGEIDWAD (*yn saluto*) : Beg pardon, your Honour. (*Y plisman yn cydio yn y trapau, ac yn eu taflu i ffwrdd.*)

CYFREITHIWR : Chi dweyd plain stori nawr wrth y judge. Beth a welsoch chi?

JAC NOODLES : Wel, gwelais i y crwt yna, Walter Wynne, un noson â'r ci ganddo yn rowndio defaid John Jones, ac mi ddaliodd un.

CYFREITHIWR : Dyna fe profi case fi to the hilt eto.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

BARNWR : What were you doing when that happened ?

JAC NOODLES : Eh ? Be mae e'n weyd, boys ?

BARNWR : Beth oet ti neyd, pryd hynny, dwyn dafad arall ?

JAC NOODLES : Ugh. Fallai pe byddai judge neu gyfreithiwr yno y byddai iddo ddwyn y defaid i gyd, ond i chwi gael gwybod, Syr, hebrwng Ann gartref o'r pentre bum i.

ANN : Taw son, yr hen barrot celwyddog ; na, hebryngaist ti ddim ohono i.

BARNWR : Order in court.

YR HEDDGEIDWAD : Order.

BARNWR : That will do (*yn troi at* WALTER WYNNE). Fi cael ti, Walter Wynne, yn euog o dau drosedd serious iawn. Yn gyntaf, ti euog o libel, scrifennu pethau cas yn y papur am gwr bonheddig mawr. Wedyn, ti euog o dwyn dafad, a ma dwyn defaid yn very serious crime, ac yn haeddu punishment mawr, ac felly fi danfon ti i carchar am ddwy flynedd, gyda llafur caled.

BILI'R TINKER : Shame.

DEIO'R SAER : Ie wirione.

PEGI : Druan bach.

MALEN : Ie, druan bach.

BARNWR : Clear the court, please.

YR HEDDGEIDWAD : Clear the court.

(*Parwb yn myned.*)

LLWYBRAU ANRHYDEDD

(JAC NOODLES a DAI SHAMS PUW yn siarad â'i gilydd wrth fyned, ac ychydig o'r neilltu.)

JAC NOODLES : Y mae y job hyn wedi talu yn o lew. Y mae yr hen Jac, Tyddyn Llwyd yn eithaf good sort.

DAI SHAMS PUW : Odi. Faint ges ti, Jac ?

JAC NOODLES : Deg punt. Faint ges ti ?

DAI SHAMS PUW : Pymtheg. Dyngais i fwy o gelwy na ti.

JAC NOODLES : Dyw hynna ddim yn deg. Dyngais i ddigon o gelwy'.

DAI SHAMS PUW : Paid a dweyd dim gair. Dere i'r " Red Lion." Fe yfwn yr arian yn joint.

LIEN.

[GOLYGFA : *Ochr y ffordd (y tu blaen i'r llen.)*]

MORRIS : Pob peth yn iawn, Syr. Walter Wynne yn y carchar, a thebyg mai yn y carchar y bydd ef am gryn dipyn hefyd.

JOHN JONES : Nas cyffra i, gwr da wyt ti, Morris. Yn awr, Morfudd Puw yn wraig yn y Tyddyn Aur, a fi mynd i mewn yn member y County Council.

MORRIS : Quite so. Ond gyda llaw, Syr. Y mae yr etholiad ar bwys, ac y mae yn rhaid myned ati o ddifrif i dynnu y " wires."

LLWYBRAU ANRHYDEDD

JOHN JONES : Ie, lycot ti nawr, ond wyt ti yn meddwl fod siawns yn erbyn Holeford y Dderi ?

MORRIS : Siawns! Tut, tut, yr oreu yn y byd, Syr, a hynny am y rheswm fod gennyh fwy o arian i'w gwario. Cwpwl o filoedd o bunnau, ac fe fydd drws y County Council yn agored led y pen i groesawu John Jones, Esq., y Tyddyn Aur.

JOHN JONES : Wirione. John Jones ar y County Council. John Jones yn mynd i ffusto Holeford y Dderi. Fi busto botymau gwasgod yn yfflon mân, a fi neidio c'uwch a'r sêr. Wel, ati Morris ar unwaith i dynnu allan y cynlluniau, pe bai yn costi miloedd.

BETSI (*yn dyfod i'r llwyfan*) : Ach! blant y fagddu, epil seirff a gwiberod, cynllwynwyr brad yn erbyn y gwirion.

MORRIS : Cer di oddiyma, Betsi, cyn i mi ddangos y ffordd i ti. Paid ti a meddwl y gelli di ein dychryn ni yr un fath ag ydwyt yn twyllo hen fenywod ar hyd y wlad.

BETSI : A—y mae y rhod fawr yn troi, y rhod fawr yn troi. Nid cynt yr ymlwybra yr haul i arwydd y Cranc nag y daw eich holl weithredoedd aflan i'r amlwg. A—yr ych chwi yn crynu peth, rwy'n gweld. Mae y rhod fawr i droi, i droi. (BETSI yn myned allan.)

LLWYBRAU ANRHYDEDD

MORRIS : Wel, yn gyntaf, Syr, y mae yn rhaid rhoddi tafarndai y gynrychiolaeth yn rhydd am o leiaf wythnos cyn yr etholiad i bob pleidleisiwr i gael diod faint a fynno. Yn ail, y mae yn rhaid rhoddi pownd o dê i'r gwragedd, ac yn drydydd y mae yn rhaid i Wil Sais Bach i roddi y motor yn llwyr at wasanaeth y bobl am wythnos cyn yr etholiad, a rhwng y cwrw, y têt, a'r motor rides, coeliwch chwi fi, Syr, fe fydd John Jones yn rhwydd ar dop y pôl.

JOHN JONES : Wirione, gwr da wyt ti, Morris, am ddeall y natur ddynol, ond dyma Wil Sais Bach yn dod. Gwell i ti roi'r orders iddo yn awr ynghylch y motor.

MORRIS : Oeddet ti yn clywed y siarad rhwng dy feistr a minnau? Y mae i ti full liberty i redeg y motor am wythnos bob dydd ar hyd yr etholaeth, ar y Sadwrn i gario pobl i'r farchnad, ar y Sul i gario pobl i'r cwrdd. I ffair ac i ocsiwn i gario pobl. Free rides i bawb, a'r cyfan oll er mwyn ennill votes i dy feistr erbyn yr election.

WIL SAIS BACH : Fi deall. Fi gwybod. Fi cal full liberty ar y motor i roi free rides i bawb drwy y constituency. Fi yn gwisgo fel chaffeur, â cot a botymau gloew, a fi canu corn, wr-r-r-r. Os fi lladd giar, mishtir rhoi giar fawr a giar dew yn lle fe; os fi tawlu cornel ty lawr, mishtir codi ty newydd yn lle fe; os fi lladd asyn a torri cart Bili'r Tinker, mishtir rhoi cart ag asyn newydd yn lle fe. Alright,

LLWYBRAU ANRHYDEDD

here's off. Fi guaranteeo ca'l miloedd o votes i mishtir erbyn election.

MORRIS : Wel, fe awn ni yn awr, Syr, i drefnu ynghylch yr election. Mae pob munud yn awr yn brexious iawn.

JOHN JONES : Ie, lycot ti nawr, ac os af fi i mew'n yn County Councillor, dyma ti fachan fydd yn torri sgwars wedyn. (*Y ddau yn myned allan.*)

LLEN.

(*Gosoder i fyny eto yr olygfa, Pistyll y Glonc, y tu blaen i'r llen, a deued MALEN, PEGI, DEIO'R SAER, a JOS Y CRYDD â phob o ystên i gyrchu dwfr.*)

MALEN : Wel, rhyfedd iawn. Pwy byth fedd-yliai y byddai Walter Wynne druan bach yn cael mynd i'r jail. Dyna eilun y werin bobl wedi mynd i'r dwst.

PEGI : Odi, odi, merch fach i. Mae Walter Wynne yn y jail, ond mae'r hen Begi yn gwybod cymaint a hyn—fod llawer un yn y carchar ddylai fod allan, a llawer un allan ddylai fod i mew'n.

DEIO'R SAER : Ie, wirion—y proffwyd yn y carchar, a'r scamps gwaethaf yn rhyddion ar hyd y wlad.

BILI'R TINKER : Mae'r hen Dinker wedi bod yn watcho'u moves nhw er ys cryn dipyn. Mae hyn yn ffact fod John Jones a Morris wedi cael gormod

LLWYBRAU ANRHYDEDD

o'u ffordd eu hunain er ys tro. Ych chwi mor dwp a lloi bliwyddi, neu mi welech drwy eu schemes nhw. Walter Wynne yn y jail—ie, a pwy oedd y tystion yn ei erbyn ef? Jac Noodles a Dai Shams Puw, dau greadur dyngant y du yn wyn a'r gwyn yn ddu er mwyn ychydig geiniogau i gael cwrw. Ma'r hen Dinker wedi cael breuddwyd fod Walter Wynne yn y carchar ar gam, a ma natur yr hen Dinker wedi codi. Ac os oes yna dirty work wedi cael ei wneuthur, watched nhw eu hunain, waeth mor wired a bod y Mynydd Du ar ei sylfeini dyma fachan a fydd i mew'n i'w pluf nhw.

MALEN : Ie'n wir, ac y mae Morfudd Puw, druan fach, gymaint am Walter Wynne ag y bu erioed. 'Dyw gwarthrudd y carchar ddim wedi oeri ei chariad tuag ato, ac y mae yn sic'r o'i briodi ef, a dyna beth mawr, a hithau yn cael cynnyg ar John Jones a'i drigain mil, ac nid yn unig hynny, ond y mae Howells y gweinidog bron a dwli am dani, a hi wnaethai wraig gweinidog dda. Does dim o'i gwell yn y dyffryn am gwca hwyad neu weithio pancws a'i dyngu ef.

JOS Y CRYDD : Dweder a fynner y mae i fod yn lively amser yr election yma. Chas yr hen Jos y Crydd ddim gwell amser yn ei fywyd. Digon o gwrw yn y "Red Lion" yn rhad ac am ddim. Tê i'r gwragedd a free motor rides i bawb. Taw'n i'n marw mae'n disgwyl fel pe bae y mil blynddoedd ar wawrio.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

PEGI : For shame i ddweyd sut beth. Dyma schemes penna'r diafol yn y byd yma—cwrw ocsiwn a chwrrw election. Ych y fi. Cwrw ocsiwn er mwyn meddwi pobol a'u twyllo i roddi crog-bris am nwyddau ac am anifeiliaid, a chwrrw yr election er mwyn twyllo y bobol i votio dros ddyd, nad oes ynndo ddim mwy o gymwysterau efallai i'r swydd nag sydd mewn dwrgi i ddarllen llithiau yn eglwys y llan. Ych y fi. Y mae yn shame i nashwn o baganiaid heb son am wlad Gristionogol.

BILI'R TINKER : Does gan yr hen Dinker ddim vote i'w chael, oherwydd y mae cartref yr hen Dinker lle bynnag y byddo yn pitcho ei dent, ond y mae hyn yn ffaith, er cymaint yw syched y Tinker am ddiod, werthai fe ddim o'i vote a'i egwyddorion am gwrw. Yr hwn a wertho ei vote a'i egwyddor am gwrw, ddylai gael ei grogi wrth y lamp-post nesaf a'i gladdu â'i ben tuag i lawr. Ond wele John Jones yn dyfod i fyny yr heol, a dyma fi yn mynd, wath ma natur y Tinker wedi codi. Allaf fi ddim capio i'r trigain mil punnau, a does yna ddim arall i gapio iddo i gael.

(BILI'R TINKER yn myned allan.)

(JOHN JONES yn dyfod yn frysiog i'r llwyfan gyda WIL SAIS BACH.)

JOHN JONES : A—pobol y pentre bach, fi balch iawn i gweld chi gyd—hen gyfeillion bore oes fi. Gwnewch yn fawr o'ch breintiau y dyddiau hyn.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Fi cofio am danoch yn dda. Fi rhoi cwrw a tē a motor rides i bawb. Chi wedyn cofio votio dros John Jones y Tyddyn Aur.

JOS Y CRYDD : Hwre i John Jones.

(Pawb yn myned ond JOHN JONES a WIL SAIS BACH.)

PEGI (*wrth fyned yn rhyw esgus dweyd naill ochr*) : Ie, mae e'n gweld pawb yn awr pan y mae'r election yn ymyl. Ond gadewch chwi y lecsiwn i fyned heibio, ddalia i mae yr un peth fydd e eto. Ie'n wir i chwi, dyna arfer gwyr boneddigions.

JOHN JONES (*wrth WIL SAIS BACH*) : Wel, lycot ti nawr, dyma Morfudd Puw yn dod. Geneth ddel ofnadw yw hi. Dyma gyfle am air bach gyda hi yn awr. Ble mae'r tonic fachgen? O, dyma fe. (*Yn yfed o'r botel.*) Ble ma Morris? Fi dipyn yn nervous siarad â merch.

WIL SAIS BACH : It's alright. Buck up, Boss. (*MORFUDD yn dod wrthi ei hun.*)

JOHN JONES : Lycoch chi, nawr. Snakes and fiddlesticks. Annwyl, gariadus ferch, oes siawns i ddyd glân o Gymro i gael gair bach gyda chwi heddyw?

MORFUDD PUW : Ond i chwi fod yn fyrr, Mr. Jones, oherwydd yr wyf mewn brys.

JOHN JONES : Ydych chwi ddim bron newid eich barn yrwan w. Siwr i chwi w, dych chi ddim yn mynd i lynu yn eich serch at Walter Wynne y

LLWYBRAU ANRHYDEDD

sparbil yna sydd yn y jail, a chithau yn cael cynnyg ar John Jones y Tyddyn Aur—dyn yn werth trigain mil o bunnau. Yn siwr i chi, fi yw'r boy i chwi.

MORFUDD PUW : Dyna ddiagon, Mr. Jones. Allaf fi byth a'ch goddef i siarad fel yna. Wnaif fi ddim â chwi.

JOHN JONES : Wel pam w? Garw mor independant i chi w.

MORFUDD PUW : Wel am y rheswm na wnaif fi garu neb, os na fyddaf yn teimlo yn sicr fod ei draed ar lwybrau gwir anrhydedd.

JOHN JONES : Llwybrau anrhydedd wir w! Dyma y bachan sydd yn mynd i mewn am anrhydedd. Diacon yn y capel, Member o'r County Council cyn bo hir. M.P. ar ol hynny. Son am anrhydedd! Ia, pa anrhydedd sydd mewn rhyw sparbil o fugail tlawd sydd heddyw yn y carchar am ddwyn defaid ac am drafod ei well yn y papurau.

MORFUDD PUW : Yr wyf yn ofni, Mr. Jones, na ellwch ddim gweld pethau yn y goleu y byddaf fi yn ceisio edrych arnynt. Yn gyntaf, does yna yr un anrhydedd mewn swydd i ddyn os na fydd y swydd yn chwilio am y dyn, ac nid y dyn yn ceisio y swydd. Yn ail, dyw y swydd a'r anrhydedd y mae dyn yn ei gael ar gyfrif ei gyfoeth yn unig ddim un math o anrhydedd gwirioneddol iddo; ac yn drydydd, ych chi yn gweld, Mr. Jones—y mae yn rhaid i mi gael pennau i'm pregeth fel pregethwr—ond yn drydydd

LLWYBRAU ANRHYDEDD

ac yn olaf, y mae yn bosibl fod Walter Wynne y bugail yn mwynhau mwy o wir ryddid rhwng muriau moelion y carchar nag y mae y rhai fu yn ei gyhuddo ar gam yn ei fwynhau y tuallan i'r carchar; a chofiwch, Mr. Jones, fod yna uwch a chywirach llys i'w gael na holl lysoedd y ddaear hon. Os ydych am ragor o resymau, Mr. Jones, chwi a'u cewch hwynt eto. Prynawn da.

JOHN JONES : Tycoch chi, nawr. Welais i erioed ffashwn beth! Arhoswch funud w.

MORFUDD PUW : Na, prynawn da.

JOHN JONES : Lychoch chi, nawr. Snakes and fiddlesticks.

(MORFUDD PUW yn myned allan.)

WIL SAIS BACH : Boss, ti dim gwybod ffor i garu. Fi gwybod ffor well na ti. Fi gosod llaw am gwddw merch peth cynta.

JOHN JONES : O, gad iddi fynd. Hen beth larch penchwiban yw hi. Gad i ni fynd i'r ty—mae dipyn yn oer.

(JOHN JONES a WIL SAIS BACH yn myned y tu ol i'r llen.)

Llen yn codi.

[GOLYGFA: *Parler y Tyddyn Aur.*]

(*Gellir cael hon yn barod y tu ol i'r llen, tra yr actio olaf yn myned ymlaen y tu blaen i'r llen.*)

LLWYBRAU ANRHYDEDD

JOHN JONES (*wrth* WIL SAIS BACH) : Sut mae yr election yn dod ymlaen, bachan? Wyt ti wedi cario llawer i'r pŵl?

WIL SAIS BACH : O, champion, Boss. Fi wedi cario miloedd ar filoedd. Pob math o ddyinion cloffion, deillion, gwywedigion.

JOHN JONES : Tycot ti. Beth oe'n nhw'n weyd, bachan? Oe'n nhw'n addo voto.

WIL SAIS BACH : Rhai pallu dweyd dim, ond y rhan fwyaf yn dweyd y buasant yn voto drosto ti pob election hyd ddydd barn dim ond iddynt gael cwrw a thê a motor rides. O, fi, Boss wedi cael miloedd o votes i ti.

ANN (*yn cario teisen a photelaid o gwrw, yn dyfod tan redeg i'r llwyfan. Yn ei gwylltineb yn bwrw ar draws* WIL SAIS BACH, *nes bo hwnnw yn cwymbo*) : Cer o ffordd, bachan, y mae y booth bron cau, ac yr wyf yn myned i mofyn Dafydd Jones Tynywern a Thomas Williams Tytwcca. Dy nhw ddim wedi bod yn voto eto, ac yr wyf yn mynd i dreial eu cael nhw i voto dros mishtir, ac os metha i, y mae y dorth a'r botel yn siwr o lwyddo i'w cal nhw, gwle!

(ANN *yn myned o'r llwyfan.*)

JOHN JONES (*wrth* WIL SAIS BACH) : Diwrnod pwysig iawn i fi heddyw—diwrnod yr election. Chwarae teg i Ann, y mae yn para yn ffyddlon o hyd. Ble ma Morris?

WIL SAIS BACH : Ma Morris yn parlwr "Red

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Lion," yfed whisci fel ych, a ma fe gweyd fod Boss yn talu am y cyfan. Ma fe wedi anghofio Cwmrag i gyd, a ma fe son o hyd am ryw "psychological moment."

JOHN JONES : Lycot ti. Cer i'w mofyn e yma.

WIL SAIS BACH : Fi ofni all e ddim cerdded, a ma fe rhy drwm i fi cario fe.

JOHN JONES : Lycot ti, dyma fe yn dod ar y gair.

MORRIS (*yn ymddangos fel pe wedi yfed llymed, yn dod ymlaen*) : Pob peth yn alright, Syr. Morris is alright. Election or no election, Morris is tip-top. This is the psychological moment—aye, the psychological moment.

JOHN JONES : Beth am yr election, fachan? Oes gennyti ti ryw amgyffred sut bydd i'r fantol droi?

MORRIS : Wel, i ddod yn ol at y Cwmbrag unwaith eto, yr ych chwi fewn Syr yn iawn. Mae yn hawdd ennill pob election ond gwario digon o arian. Dim "direct bribery," mae hynny dan gosb. Ond y mae ffordd arni. Every man has his price, Syr. Fe ellwch brynu unrhyw ddyn ond y sparbil bugail bach yna ddim ond i chwi gynnyg digon o bris am dano.

JOHN JONES : Ie, lycot ti, nawr; ond beth am y cymwysterau?

MORRIS : Cymwysterau be hanged! Does dim eisiau son am gymwysterau. Pe byddai asyn yn sefyll election a bod ganddo fil o bunnau i'w gwario

byddai yn sicr o ennill. Ond cofiwch chwi, Syr, asynod bob un fydd yn voto drosto. Maent yn teimlo dros y tylwyth. Ych chwi yn gweld y point, Syr? Y mae y ffyliaid i gyd gyda chwi, ac y mae y ffyliaid yn y big majority.

JOHN JONES: Wel, ar fen'd i, dyw dy fanners di, Morris, ddim yn gwella wrth fynychu y "Red Lion." Os mai ffyliaid sydd yn voto i mi, wel diolch am ffyliaid ddyweda i, waeth ennill yr election yw fy mhoint i.

(*Y cwmni tu ol i'r llen yn gwaeddi "hwre!"*)

MORRIS: A—rwyf yn eu clywed nhw'n gwaeddi. Mae y votes wedi eu rhifo. Cawn glywed gyda Wil Sais Bach yn union deg.

JOHN JONES: Rwy'n nervous ofnadwy, fachan, dim ond amser da'th y carn menywod hynny ar fy nhraws i y bum i mor nervous o'r blaen.

WIL SAIS BACH (*yn dod i mewn tan redeg a phapur ganddo*): Fi wedi cael y result: John Jones Esq., Tyddyn Aur, 2,500 votes; Thomas Charles Holeford, Esq., Deri, 1,678 votes. John Jones elected—822 majority.

JOHN JONES: Lycot ti. Dal fi lawr, Morris, neu fi neidia i i'r sêr.

ANN (*yn clapio ei dwylaw*): Hwre! Mishtir yn County Councillor, a finnau cyn hir yn Mrs. County Councillor, neu fe fydd yma ddiain o row.

(*Bydded i'r cwmni yn yr ante-room i waeddi,*

"John Jones for ever. Speech, speech" a; bydded i John Jones i droi ei wyneb at yr ante-room.)

JOHN JONES: Annwyl gariadus frodyr. Lychoch chi nawr. Snakes and fiddlesticks—beth weda i Morris? (MORRIS yn dweyd yn ddistaw y speech o'i flaen ef.) Fi diolch yn fawr i chi gyd. Fi balch iawn o'r anrhydedd o fod yn County Councillor. Mae y byd hyd yma wedi bod i gyd allan o drefn, ond fi pasio mesurau, a gwneud pethau ar y County Council i gael y byd i gyd i'w le. Fi mynd i droi y byd upside down a down side up. Fi sefyll election am M.P. yn nesaf, a fi addo digon o cwrw a têt a motor rides i bawb y pryd hynny eto. Diolch yn fawr i bawb.

(*Banllefau o gymeradwyaeth—"John Jones for ever."*)

(*Caner yn awr y penillion telyn a ganlyn.*)

DDOE A HEDDYW.

Penillion telyn i'w canu ar "Penrhaw."

(*Os mai rhywun yn niwylg hen wr neu hen wraig fydd yn canu, gadawer y pennill blaenaf allan.*)

Hen wr a'i delyn yn ei law

A'r hen Benrhaw ddi-rodres;

Chwareuoi ef ar dannau llon,

Nes gwneud fy mron yn gynnes.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Nis gwn pwy oedd y cerddor glân,
Ond dyma'r gân a glywais.

Rwy'n cofio'r cawl a'r bara haidd,
A photes maidd ac enwyn ;
A bwdran tew mewn phiol bren,
A sleisen o gig mochyn.
'Roedd cewri y pryd hynny'n byw
Ymhob rhyw fferm a bwthyn.

Ond heddyw rhaid cael apple pies,
A pudding rice a sago,
A the a thost a bara can
Yn fuan ar ol cinio ;
Ond tawn i'n trengu, faint o werth
Yw rhain am nerth i weithio.

Rwy'n cofio mam yn fenyw smart,
Yn mynd mewn cart i'r farchnad ;
Pais a gwn bach yn ddigon del—
Mor "swell" a gwraig y ffeirad.
Y shilken hat oedd ar ei phen,
A honno'n glen yn wastad.

Ond heddyw rhaid cael motor car,
A gwisgo ar y gorau
Mewn hobble skirts, elastic shoes,
A blouses a sidanau ;

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Rhaid gwisgo veil i dref a llan,
A bangles am arddyrnau.

Rwy'n cofio pan yn deg eu grân
Oedd gruddiau glân y merched,
A braf edrychai ambell chwaer
Ar ddydd ffair Sulgwyn Llambed ;
Ac os caech un o'r rhain i'ch col,
'Doedd gennych ffol o goflaid.

Ond merched gwrol fel y bu,
Ni welaf fi ddim rhagor ;
Mae jam a pie, a thê a thost
Ar wendid tost yn esgor ;
Ceir dannedd gosod fyrdd yn awr,
A biliau mawr i'r doctor.

Rwy'n cofio mynd yn hogyn balch
I mofyn calch i'r odyd,
A deugain siwrne'n llawn a wnawn
O lwythi iawn bob blwyddyn.
Roedd ffermio y pryd hwn i'w gael,
Heb olwg wael ar dyddyn.

Ond heddyw dim ond basic slag,
A gwael yw'r "wag" am lafur ;
Does geirch i farch i'w gael yn awr,
Na fawr o wair i'r bladur ;

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Pob un yn byw yn uwch na'i stad,
A'r wlad yn gwaelu'n brysur.

Rwy'n cofio'r hen Gymraeg mewn bri
Ymhob rhyw dy yng Nghymru,
Yn sain y crwth a'r delyn lon,
Alawon hon wnawn ganu ;
Roedd son am Saesneg i ni'n dreth,
Ond heddyw beth am dani.

To boarding school goes Mary Jane,
Off by the train to Gloucester ;
But Mary Jane comes home from school
More of a fool than ever ;
" That horrid Welsh I hate," says she,
" I like the English better."

Fe ddywed rhywrai fod yr oes,
Dan gario'i chroes yn symud,
Ymlaen mewn dysg a moes yn iawn,
Mewn dawn ac mewn celfyddyd ;
Ond rhyfedd iawn yw'r gân o hyd,
Fel gwna y byd gyfnewid!

LLWYBRAU ANRHYDEDD

[GOLYGFA : *Pistyll y Glonc.*]

(*Gosoder i fyny eto yr olygfa, Pistyll y Glonc y tu blaen i'r llen, a deued pob un â'i ystên i gyrchu dwfr.*)

PEGI : Ha, ha. Y newydd goreu erioed. Walter Wynne yn rhydd o'r carchar, ac wedi ei brofi'n ddi-euog gerbron Duw a dynion.

DEIO'R SAER : Ie, wirion, ac oni bae fod rheumatic yn y goes, buaswn wedi neidio c'uwch a'r sêr pan glywais y newydd. Proffwyd ei wlad wedi ei garcharu ar gam—rhag cywilydd iddynt. Ond y mae y proffwyd wedi dod yn ol, a chredwch chwi fi, y mae ganddo genadwri at y bobl i'w chael na fedr carchar na dim arall ei distewi.

PEGI : Odi, odi, ac y mae barn Duw yn dechreu disgyn ar weithredwyr twyll ac anwiredd. Mae yr hen Air yn eithaf gwir, mai ffordd y troseddwyr sydd galed. Y mae pethau yn dechreu cyfnewid yn y Tyddyn Aur. Y mae John Jones yn dechreu medi y cynhaeaf y mae wedi hau. Y mae yn wael yn ei wely er ys diwrnodau a pha ryfedd! canys yr oedd efe a Morris byth a hefyd ym mharlwr y " Red Lion " yn yfed fel dau ych, ac wedi sychu y tafarn ragor nag unwaith.

MALEN (*yn dod yn wyllt*) : Glywsoch chi y latest ?

PEGI : Naddo, dwed glou.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

MALEN : Y mae Howells y gweinidog wedi bod yn edrych dros gyfrifon John Jones, ac y mae rhyw bymtheng mil o bunnau yn eisiau. Morris sydd yn cael y bai, ac y mae Morris wedi ffoi, a'r polis ar ei ol ef. Rhai yn dweyd iddo groesi y Mynydd Duddoe yn gynnar, eraill yn barnu ei fod yn ymguddio rhywle yn y gymdogaeth yma.

PEGI : Wel, dyna hi yn gopsi yn awr. Fu gen i ddim golwg ar yr hen Forris yna erioed. Yr oedd yn siarad mor deg yn wastad, ond yr oedd yn hawdd gwybod fod yna wenwyn aspaidd y tu ol i'r dafod felfed yna. Nid wrth ei big y mae 'nabod cyffilog.

BILI'R TINKER : Wyt ti yn eithaf iawn, Pegi fach. Y mae dau wyneb i bob dalen, ac y mae dau wyneb i bob dyn. Y mae ambell i ddyd y mae golwg digon sarrug arno, ond aiff trwy ddwr a thân i wneud cymwynas â chwi. Un arall wedyn ac wyneb fel angel ganddo, a'i dafod fel y llefrith, ond mor ddi-egwyddor a'r Kaiser o Germany. Menywod wedyn—y mae ambell i fenyw yn disgwl mor fine y gellwch chi ei bwyta bob muffin, ac am wn i na fyddai yn drugaredd â'r byd pe byddai rhywun yn ei bwyta hi, a phob un o'i sort hi.

DEIO'R SAER : Wyt ti yn dechreu cael hwyl ar siarad heddyw eto, ond maent yn dweyd wrtho i mai ti fu yn offeryn i gael Walter Wynne o'r carchar; fu gennyf ddim golwg ar dinkeriaid erioed, ond os

LLWYBRAU ANRHYDEDD

ydi hynny yn wir, byddaf ffrynd i bob tinker byth mwy.

BILI'R TINKER : Ia. Bili'r Tinker a Rhaglun-iaeth yn limited company ddaeth â Walter Wynne y proffwyd o'r carchar.

DEIO'R SAER : Bendith fo arnat ti. Sut y bu hi, y Tinker?

BILI'R TINKER : Wel, fel hyn yn gywir. Yr oeddwn wedi breuddwydio fod Walter Wynne yn ddi-euog, ac fe dwymodd gwaed y Tinker hyd y "boiling point." Bum wrthi ddydd a nos yn ceisio cael allan rhyw ffordd i brofi ei ddi-euogrwydd, ond yn methu yn deg, ond un noson oer a gwlyb a thywyll, pan yn fy nhent wrth droed y Mynydd Du, pwyddaeth tan ymlusgo i mewn i'r tent ond yr hen Ddai Shams Puw. Deallais fod yr hen greadur yn ymyl marw. Gosodais ef i orwedd ar wely o wellt yn ymyl y tân. "Oes papur a phencil gyda ti, Bili," meddai fe. Yr wyf am wneuthur cyffesiad pwysig. Deallais fod yr hen greadur oddifrif. Rhedais i dy fferm cyfagos, a daeth gwr y ty a dau o'r bechgyn i fyny gennyf i'r tent, ac yn y tent, yng ngwydd pedwar o dystion gwnaeth Dai Shams Puw y cyffesiad canlynol: "Myfi, Dai Shams Puw wnaeth ddwyn dafad y Tyddyn Aur, am ba weithred y mae Walter Wynne y bugail wedi cael dwy flynedd o garchar ar gam, ac am bymtheg punt a roddwyd i mi gan Jac Morris, private secretary i John Jones, tyngais yn erbyn

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Walter Wynne anwiredd noeth yn y llys." A chyda hyn^gaeth ysbryd Dai Shams Puw o dent y Tinker i gyfarfod â'i Dduw.

DEIO'R SAER : Ie, wirione! A dyma Walter Wynne yn dod.

WALTER WYNNE : Unwaith eto yn ddynd rhydd ar ddaear Duw, a'r Tinker yn llaw Rhagluniaeth rhyfedd fu yn offeryn i'm cael o'r carchar. Byddaf yn ffrynd iddo tra y byddaf byw, a chyhyd ag y bydd tafell yn fy nghwprdd caiff y Tinker ddim goddef eisiau bwyd.

Y CWMNI : Hwre! hwre! Walter Wynne o'r carchar. Hwre!

DEIO'R SAER : Roedd y carchar, machgen i, ar lwybr anrhydedd. Daw y bugail bach eto yn fwy poblogaidd nag erioed.

WALTER WYNNE : Efallai nad ydych wedi clywed, ond yr ydwyf wedi cael fy newis gan blaid y gweithwyr fel eu hymgeisydd am sedd yn senedd Prydain Fawr. Byddaf yn brysur iawn yn awr yn annerch yr etholwyr bob nos hyd ddydd yr etholiad.

Y CWMNI : Hwre!

DEIO'R SAER : Rych chi'n siwr o vote Deio'r Saer, ta beth. Dyma y fath ddynd sydd eisiau ar y wlad. Un o blant y werin. Un wedi codi o blith y bobl. Un yn gwybod beth yw ennill ei damaid prin trwy chwys ei wyneb. Hwre!

BILI'R TINKER : Bendith y Tinker ar dy ben

LLWYBRAU ANRHYDEDD

di, machan i. Os bydd y gweithwyr yn ffyddlon i'w hargyhoeddiadau, bydd y bugail bach yn y senedd yn iawn, ond y maent yn hala natur y Tinker i godi wrth weld eu rhandibw' nhw. Y ffaith am dani, mae eu hanner nhw wela nhw ddim trwy ffenestr o lass.

JOS Y CRYDD : Ydi John Jones yn mynd i sefyll yr election hon?

WALTER WYNNE : Tebyg nad ydyw. Yr oedd yn ei fwriad i sefyll, ac i wario miloedd i geisio ennill trwydegwch neu annhegwch, ond y mae cynlluniau John Jones wedi mynd yn yfflon.

JOS Y CRYDD : Wel, nas cyffra i, dyna drueni! Caiff yr hen Jos ddim cwrw, caiff Mari ddim tē. Y maent yn son am egwyddorion, ond yn enw y brensach annwyl beth gwell yw cylla dyn o egwyddorion? Rhowch i mi gwrw, a rhowch i Mari dē, a'r hen Jos wedyn siwr o voto "true blue."

DEIO'R SAER : Y mae John Jones yn gwybod yn dda erbyn hyn fod llygaid y werin yn dechreu agoryd—fod y bobl fu yn cysgu cyhyd yn dechreu deffro i'w hawliau, ac yn anfoddloni ar eu llyffeth-eiriau, ac y mae yn rhaid cael rhywbeth heb law arian heddyw i osod traed neb ar lwybr gwir anrhydedd.

WALTER WYNNE : Does gennyf fi, lencyn o fugail, nac aur nac arian. A phe byddent gennyf ni wnawn lwgr-wobrwyo neb. I'r senedd yn

LLWYBRAU ANRHYDEDD

anrhydeddus, neu ynte allan yn anrhydeddus, i mi ydyw unig lwybr gwir anrhydedd.

(*Deued MORRIS yn awr i'r llwyfan wedi gwisgo fel "gipsy woman," a shawl fawr dros ei ben, a dim ond ei lygaid a'i drwyn yn y golwg.*)

MORRIS (*â llais clochaidd cras fel "gipsy woman" meddw*): Ych y fi, mae'n rhyfedd iawn fel hyn. Teithio obeutu y wlad; byw ar garedigrwydd pobl a hwn yn brin iawn yn fynych, yn fynych.

PEGI (*yn deimladwy*): Druan fach, sut y daethoch i'r cyflwr hwn, fy merch i?

MORRIS: Bu gennyf dy a thân, a chartref bach cysurus, ond trodd y gwr yn feddwyn—hen wrywod, hen scamps. Do, bu gennyf dy a thân, a thân.

YR HEDDGEIDWAD (*yn dod yn wyllt i'r llwyfan*): Welsoch chi Morris? Fu ef y ffordd hon?

DEIO'R SAER: Naddo, nid ydyw wedi bod y ffordd hon yn ddiweddar, mi dynga. Ydi e wedi dod i afael y gyfraith, Plisman?

YR HEDDGEIDWAD: Ydi, y mae wedi bod yn offeryn i daflu Walter Wynne i'r carchar ar gam; peth arall, y mae wedi dwyn oddiar John Jones o leiaf pymtheng mil o bunnau. Welsoch chi e: I charge you that you withhold nothing from the servant of the crown that will be of help to him in the execution of his duty.

PEGI: Nag ydym yn wir ddim wedi ei weled. Pe wedi ei weled byddem yn dweyd ar unwaith,

LLWYBRAU ANRHYDEDD

oherwydd y mae Morris yn haeddu jail. Yn y jail dylai fe fod er ys blynydd dai, a phob un o'i sort ef.

YR HEDDGEIDWAD: Fi ar track fe er ys doe. Rhai dweyd bod e wedi croesi Mynydd Du neithiwr am Sir Morgannwg. Ond bore heddyw fi codi llwynog yn disymwth. Roedd e yn cwatio mewn tawlod, a dyma Morris yn rhedeg a fi ar ei ol fe. A dyma fe trwy gallt o goed mawr a fi ar ol fe. Ac wedi hynny trwy gae brynar hyd benliniau fi yn mwd, a mi dilynais ef hyd y pentref hwn. Fi wedyn colli fe, ond fi meddwl i fi weld e yn mynd i mewn i "Red Lion." Fi wedi whileo ty i gyd, a neb i mewn, a neb wedi dod allan ond y gipsy hon.

MORRIS (*fel gipsy*): Gwelais i ddyn yn mynd i lawr y ffor yna, i gyfeiriad Llandilo, Llandilo. Yr oedd yn rhedeg yn gwrwm bach gydag ochr y clawdd, y clawdd.

YR HEDDGEIDWAD: Beth? Beth? Ffordd? Ffordd? Pam na fuaset ti yn dweyd yn gynt?

MORRIS: I lawr y ffordd yna, ac os ydych am ei ddal e, y mae yn well i chwi ei symud hi. Ond dyna fe, fe wnaiff les i chwi redeg tipyn i gael gwared y cwrw a'r gwer, a gwyneb lliw putty, putty.

YR HEDDGEIDWAD: Ti treial bod yn "funny" ti gipsy. Hello! ti wedi cael baw ar y tra'd run peth a cae brynar. (*MORRIS yn gweylltu ac yn ceisio sfoi.* Yr HEDDGEIDWAD yn dod ymlaen ac yn gosod ei law ar ei ysgwydd ef, ac yn tynnu y shawl i ffordd.)

LLWYBRAU ANRHYDEDD

YR HEDDGEIDWAD : Hallo! ti magu moustache mawr o menyw.

Y CWMNI (*mewn dychryn*) : Yr argoel fawr! Morris yw e!

YR HEDDGEIDWAD (*yn gafaelyd yn dynnach yn MORRIS, ac yntau yn ceisio myned yn rhydd*) : Come on this way. Ti treial bod yn smart. Ti treial ffoi yn nillad gipsy. Cawn weld faint o gwrw a gwer fydd ynot ti yn jail, a sut lliw gwyneb ti yn yr Assizes.

(*Yr HEDDGEIDWAD yn arwain MORRIS o'r llwyfan, a'r cwmni yn canlyn, ac yn dweyd mewn syndod : "Yr argoel fawr."*)

(*Pawb yn myned allan.*)

LLEN.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Y BUMMED ACT.

[GOLYGFA : *Drawing room y Tyddyn Aur.*]

(JOHN JONES *yn edrych yn glafychaidd, ac fel pe wedi heneiddio cryn dipyn. Bydded iddo eistedd ar gadair â'i droed mewn bandage. Safed ANN yn ei ymyl fel pe yn gweini arno.*)

JOHN JONES : Ie'n wir, Ann fach. Poenus iawn yw hi fel hyn—arian neu beidio y mae yn rhaid i'r cyfoethog ddiodef a rhaid i'r cyfoethog farw hefyd.

ANN : Dyna fel y mae hi, mishtir bach. Yr hyn a heuo dyn, hynny hefyd a fed efe. Dywedais i ddigon wrthy ch mai fel hyn y byddai hi—yfed whisci, ffwrdd ar y County Council, ffus fawr yr electionau, colli cysgu, torri deddfau iechyd, a heddyw'n diodde'r canlyniadau.

JOHN JONES : Yr wyt yn iawn, Ann fach, ond yn awr yr wyf yn dechreu agor fy llygaid i geisio sylweddau pethau. (*Yn cydio yn ei goes ac yn ochain.*) O, fy nghoes i! Y mae yn sal ofnadwy. Dim moment yr wyf wedi gysgu er ys dwy noswaith. Pan oedd Morris yma yr oedd yna ryw beth rhyfedd iawn arnaf. Yr oeddwn yn llwyr dan ei ddylanwad

LLWYBRAU ANRHYDEDD

ef. Glywaist ti ddim a gafodd y polis afael ynddo fe ?
Y mae wedi rhedeg i ffwrrd â miloedd o'm harian,
ond ni fuaswn yn gofidio am hynny, oni bae iddo beri i
mi wneuthur y fath ffwl ohonof fy hun.

ANN : Odi, mishtir bach, y mae y polis wedi ei
ddal ef. Yr oedd yn ceisio ffoi yn nillad gipsy,

JONES JOHN : Lycot ti, nawr, un tynn yn
Morris, ond y mae wedi cwrdd a'i drech o'r diwedd.

(*Cnoc wrth y drws. ANN yn myned i'r drws.*)

JOHN JONES : Pwy sydd yna ?

ANN : Pobol y pentre bach yn galw i'ch gweled.
JOHN JONES : A—dewch i mewn. Da gennyf
eich gweled, hen gyfeillion bore oes fi. Gyda chwi
yr wyf fwyaf cartrefol. Doedd cylch y gwr bonheddig
yn taro fawr o hen Jac, Tyddyn Llwyd.

DEIO'R SAER : Sut mae y goes, Mr. Jones bach?

JOHN JONES : Poenus iawn (*yn neidio ac yn
gwaeddi*) o 'nhroed fach i!

PEGI : Poor fellow bach, mae yn boenus.

MALEN : Odi, druan bach.

JOHN JONES : Beth yw'r newydd diweddaraf,
ffrindiau ?

DEIO'R SAER : Yr ydych wedi clywed, tebyg, am
Walter Wynne y bugail.

JOHN JONES : Nac ydwyf, yn wir. Y mae y
bachgen yna wedi bod ar fy meddwl ddydd a nos yn
ddiweddar, ac wedi peri i mi gydwybod ddigon euog.
Ond beth am dano yn awr ?

LLWYBRAU ANRHYDEDD

DEIO'R SAER : Wel, y mae wedi ei ddewis gan
y labour party fel eu hymgeisydd am sedd yn y Par-
liament, ac y mae wrthi yn awr ddydd a nos yn
annerch yr etholwyr. Cred y gweithwyr fod ynddo
gymwysterau arbennig i fod yn arweinydd ei wlad.
Mae y wawr yn ei lygad ef, ac y mae ei galon yn
llosgi yn eirias dros hawliau plant y gorthwrwm.

JOS Y CRYDD (*wrth JOHN JONES*) : Election y
baw, Syr, fydd hon. Dim cwrw i Jos y Crydd, dim
tê i Mary, dim motor rides. Gwell gen i election chi,
Syr, nas cyffra i.

JOHN JONES : Ie, ond lycoch chi, nawr, credaf
fy mod i a Morris wedi dallu y bobl yn ddigon hir.
Y peth tebycaf i wirionedd ddywedodd Morris erioed
yw fod arian yn agor pob drws ond drws y nef, a'r hyn
sydd yn fy mlino yn awr yw bydd y drws pwysicaf
ynghau yn y diwedd. Does gen i ond dymuno pob
lwc bellach i'r bugail bach. O, fy nhroed i! Ydi y
meddyg bron dod ?

ANN : Y mae Wil Sais Bach wedi myned i'w
mofyn, ac os ydyw Dr. Price gartref, fe ddaw yn
union deg. A—dyma fe yn dod. Glywch chi y
motor ? (*Swn corn y motor. DR. PRICE yn dyfod i
mewn yn gyflym wedi gwisgo fel "sporting doctor."*)

Y MEDDYG : Dydd da, John Jones. Beth sydd
yn bod heddyw ?

JOHN JONES : O, doctor bach, gwael iawn ;
mae yr hen droed yma yn boenus ofnatsan.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

Y MEDDYG : Ie, quite so. Ydych chwi yn teimlo'n sal heblaw yn y goes ?

JOHN JONES : Lycoch chwi, ydw, doctor. Y mae poen yn fy mhen, a phoen yn fy nghefn, a phoen rhwng y ddwy ysgwydd, a phoen yn y cylla, a dim yn dda drostwy i gyd.

(Y MEDDYG yn tynnu y bandage i ffwrdd ac yn archwilio'r droed.)

JOHN JONES : O, peidiwch, doctor ; peidiwch. O, 'nhroed i!

(Y MEDDYG yn cydio yn yr arddwrn, yn tynnu ei oriawer allan ac yn teimlo'r pulse.)

Y MEDDYG : Ie, quite so. Gadewch weld tafod.

(JOHN JONES yn estyn tafod allan.)

Y MEDDYG : Thank you. (Y MEDDYG yn gosod y stethoscope ar chest JOHN JONES.)

Y MEDDYG : Anadl ddofn. Ie, eto—in, out.

JOHN JONES (yn tynnu anadl ddofn, yn ochain ac yn gwaeddi) : O, 'nhroed fach i!

Y MEDDYG : Nid wyf yn cyffwrdd â'ch coes yn awr.

JOHN JONES : Lle bynnag y byddwch yn cwrdd â mi, yn fy nhroed yr wyf yn cael dolur.

Y MEDDYG (yn gosod y stethoscope ar gefn JOHN JONES) : Dywedwch ninety-nine.

JOHN JONES (yn gwaeddi) : Ninety-nine. Ninety-nine. Ninety-nine.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

(Y MEDDYG yn gosod y stethoscope yn ei logell, ac yn eistedd i lawr.)

JOHN JONES : Lycoch chi, nawr, Doctor, rwyf am gael stori blaen gyda chwi. Yn gyntaf—beth yw y mater ; yn ail—a oes modd gwella ?

Y MEDDYG : Wel, os ydych am gael stori blaen, dyma hi i chwi. Y gout sydd arnoch chwi.

JOHN JONES : Ie, lycoch chwi, nawr.

PEGI (o'r neilltu) : Poor fellow bach.

MALEN : Druan bach.

Y MEDDYG : Y mae hwnnw wedi ei achosi trwy yfed gormod o whisci, trwy luxuries, and so on, so on.

JOHN JONES : Lycoch chwi. Peth rhyfedd na na fyddai Morris wedi cael y gout yn y ddwy goes. Y mae wedi yfed mwy na mi.

JOS Y CRYDD : Ie, nas cyffra i, lle sych fydd y jail iddo.

MEDDYG : Y mae y bywyd yr ydych wedi bod yn ei fyw yn ddiweddar yn ddinistr i'ch cyfansoddiad chwi, ac y mae'n rhaid troi dalen.

ANN : Dywedais i ddigon wrtho fe, doctor, mai fel hyn y byddai hi, ond wrandawai ef ddim arnaf fi.

JOHN JONES : Oes modd gwella, Doctor ? Os oes, gosodaf fy hun yn llwyr yn eich llaw chwi.

Y MEDDYG : Wel oes, ond dim ond un ffordd am dani—myned yn ol i'r hen fyd—y byd yr oeddech yn byw yn ddo cyn cael yr holl gyfoeth yna sydd gennych. Peidio cyffwrdd â dim meddwol, mynd i'r gwely am

LLWYBRAU ANRHYDEDD

ddeg bob nos a chodi am chwech yn y bore. Byw ar laeth a bwdran a chawl ac nid ar bancws a thê a phlwm-pudding a whisci. Gwneud diwrnod o waith gonest bob dydd, a mynd i'r gwely yn flinedig yn yr hwyr.

JOHN JONES : Ie, lycoch chwi, nawr.

Y MEDDYG : Danfonaf foddion i chwi, a bocsaidd o bills. Ni raid i chwi fagu yr hen droed. Gellwch godi ar eich traed a cherdded tipyn. Prynawn da.

ANN : Beth am y bill, doctor ?

Y MEDDYG : O, fe gewch chi y bill. Welsoch chwi erioed ddoctor na ofalai anfon y bill.

(Y MEDDYG yn myned. *Swn hooter y motor.*)

JOHN JONES (*yn codi ar ei draed, ac ANN yn ei gynorthwyo*) : Ie, lycoch chi, nawr. Yn ol i'r hen fyd. Yn ol o fyd y champagne a'r whisci a'r plwm-puddings i fyd bwdran a llaeth a chawl. Yn ol o fyd segurddod i fyd diwrnod caled o waith. Yn ol o fyd y motor car i fyd Derby a'r cart, ac os felly, er mwyn cario allan y program yn llawn, y mae yn rhaid mynd yn ol o fyd y jocan â'r ladies mewn silks a satin, i fyd caru a phriodi Ann. Druan ag Ann, y mae wedi para yn ffyddlon i mi ar waethaf y cyfan i gyd.

(*Cnoc wrth y drws, a WIL SAIS BACH yn dod i mewn.*)

WIL SAIS BACH : Boss, glywaist ti y latest ?

JOHN JONES : Naddo. Beth yw, bachgen ? Gwed yn glou.

LLWYBRAU ANRHYDEDD

WIL SAIS BACH : Walter Wynne wedi ei ethol yn M.P.—big majority.

Y CWMNI : Hwre!

DEIO'R SAER : Well done y bugail bach. Own ni yn dweyd fod yna rywbeth rhyfedd yn y bachgen yna.

WIL SAIS BACH : Y mae Walter Wynne a Morfudd Puw yn dod i fyny yr heol.

JONES JOHN : Lycot ti, nawr. Gofyn iddynt ddod i mewn i weld yr hen John Jones.

(WIL SAIS BACH *yn mynd ar y gair.*)

JOHN JONES : Ie, wirione—Walter Wynne yn M.P. Yr oedd y bachgen yna ar lwybr anrhydedd, ac yn penderfynu dringo, er i mi wneud fy ngoreu i'w gadw i lawr. Bum innau yn ceisio am anrhydedd, ond cefais i ddim ond y cysgod.

(WALTER WYNNE a MORFUDD PUW *yn dyfod i mewn.*)

Y CWMNI : Hwre! Hwre! Llongyfarchiadau fil.

DEIO'R SAER : Well done y bugail bach.

BILI'R TINKER : Bendith y Tinker ar dy ben, machgan i.

WALTER WYNNE : Gaf fi gyflwyno i'ch sylw Mrs. Wynne ?

PEGI : Ydych chi wedi priodi ?

WALTER WYNNE : Ydym, a hynny cyn pen awr

wedi i mi ddod yn rhydd o'r carchar. Euthum o un carchar i'r llall.

PEGI : Ie, ie, ond mae digon o ryddid machgen i yn y carchar, ac y mae ei gestyll yn gariad.

JOHN JONES : Lycoch chi. Un gair, Syr. Wnewch chwi faddeu i mi am y cam wneuthum â chwi ?

WALTER WYNNE : Maddeu! Gwnaf, o lwyr-fryd calon, Squire Jones.

PEGI : Ie, ie, machgen bach i. "Gwyn eu byd y rhai addfwyn, canys hwy a etifeddant y ddaear."

JOHN JONES : Lycoch chi. Un gair eto, Syr. Yr wyf dan strict orders y meddyg i gyfnewid fy ffordd o fyw. Y mae gennyf ryw ugain mil o arian eto heb eu gwario, ac yr wyf yn penderfynu eu gwario i'r amcan goreu i lesoli cymdeithas ac i wella'r byd. Yr ych chwi wedi priodi Morfudd, a phob lwc i chwi. Yr wyf finnau yn mynd i briodi Ann. Ac ar ddydd ein priodas yr wyf yn golygu rhoddi têt i bawb trwy'r cymdogaethau, ac yr wyf am i chwi a'ch gwraig fod yn bresennol, os y dewch.

WALTER WYNNE : Gyda phleser y deuaif.

MORFUDD PUW : A minnau hefyd.

JOHN JONES : Y mae y wledd i fod yn eich "honour" chwi, Syr, er rhoddi mantais i'r trigolion i longyfarch y bachgen fu unwaith yn fugail, ond a ddringodd trwy garchar a chroesau llwybrau anrhydedd i senedd ei wlad.

Y CWMNI : Hwre! Speech. Speech.

WALTER WYNNE : Annwyl gyfeillion a chyd-wladwyr oll. Dymunaf ddiolch o galon i chwi am eich dymuniadau caredig a'ch llongyfarchiadau cynnes. Teimlaf fi a Morfudd yn falch iawn o'r fuddugoliaeth, nid yn gymaint er ein mwyn ein hunain, ond yn bennaf am y rheswm y bydd y safle o aelod seneddol yn fantais i mi fod o gymaint gwasanaeth i fy ngwlad. Penderfynaf wneud fy ngoreu i godi Cymru i'r lan, a thrwy godi Cymru i godi y byd trwy Gymru. (*Hear, hear.*) Y mae Cymru heddyw mewn perigl. Y mae ei thelyn ynghrog ar yr helyg. Y mae y tân cenedlaethol mewn llawer ardal bron a diffodd; y mae ei delfrydau yn cael eu chwalu: ei hallorau yn myned yn sarn, a iaith y Cymro yn ein trefydd poblog mewn perigl o gael ergyd marwol gan y Saesneg estronol. Y mae Rhyddid heddyw yn y llaid, a Chyfiawnder yn ei gwaed ar yr heol, tra y mae yna fyrdd o leisiau o feddrodau Cymru fu yn galw ar Gymru i ddeffro, ac ar y dewr i daro. Fel bugail tlawd o'r Mynydd Du, yn Gymro o waed a chalon, heb falais yn erbyn neb, af i fyny yng nghymorth Duw i senedd Prydain i ymladd hawliau Cymru, Cymro, a Chymraeg, a charwn fyw i weled Cymru yn ben y byd—y lanaf, buraf, tan haul y nef. (*Hear, hear.*) A chredaf o galon mai nid llwybrau cyfoeth, hunanlê, na gwag-ogoniant, ond llwybrau yr amcanion gonest, y cymeriad pur, a'r cariad

LLWYBRAU ANRHYDEDD

diragrith—llwybrau yr aberth dros eraill, a gwasan-
aeth i wlad a chenedl, ydynt unig llwybrau gwir
anrhydedd. (*Hear, hear. Cymeradwyaeth.*)

(*Yr oll o'r cwmni—Tôn "Harlech."*)

Dringwn, dringwn, ar i fyny
I uchelder y clogwyni,
Lle mae'r grisial pur yn tonni
Dros y mynydd mawr.
Ar y bannau bo'n delfrydau,
Ac os geirwon ydyw'r llwybrau,
Braf yw'r fron ar ol y brwydrau,
Dringwn ar bob awr.
Llwybrau aur anrhydedd
Dringwn oll yn unwedd,
Tua'r lan i'r bryniau ban,
Dan ganu cân yn geinwedd.
Mae ein bywyd yn prydferthu,
Mae ein goreu yn datblygu,
Tra yn dringo ar i fyny
Tua phyrth y wawr.

LLEN.

112

E.P.C. New List of Plays & Dramas
IN ENGLISH AND WELSH.

THE BAKEHOUSE. (*J. O. Francis.*) 1/- net
post free 1/2.

CHANGE. (*J. O. Francis.*) Boards, 2/6, post
free 2/9. Paper Covers, 2/- net, post free 2/3.

NOSON O FARRUG. (*R. G. Berry.*) 1/- net,
post free 1/2.

Y PWYLLGOR. (*D. T. Davies.*) 1/- net, post
free 1/2.

YR HEN DEILIWR. (*J. Lloyd Jones.*) 1/- net,
post free 1/2.

THE GREAT EXPERIMENT. (*Naunton Davies
and Stanley Drewitt.*) 2/- net, post free, 2/3.

THOSE WHO WAIT. (*Ernest Cove.*) 1/- net,
post free 1/2.

LLWYBRAU ANRHYDEDD. (*D. Derwenydd
Morgan.*) 2/- net, post free 2/3.

RYBECA. (*Gwili.*) 2/- net, post free 2/3.

TEN SHORT PLAYS—Cyngor Plwy'—Trwbwl yn
Wrecsam—Nith Dic Shon Dafydd—Ar Leave—
Natur Plentyn—Byddin y Plant—Dyfodol Plentyn
—Y Milwyr ar Brawf—Cosbi Dafydd—Yr Hen
Siopwr. 2/- net, post free 2/3.

Licences for Public Performance to be obtained from
The Educational Publishing Company, Ltd., Cardiff.